*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU DDYDD LLUN 20 MEHEFIN 2022 yn rhithiol drwy Zoom.**
**Dechreuir y cyfarfod yn syth ar ôl y cyfarfod blynyddol.**

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordeb**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**
Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Mawrth 2022**

5. **Materion yn Codi**

6. **Tanau Gwyllt (cyflwyniad)**

7. **Diwedd blwyddyn ariannol 2021/22**

8. **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22**

9. **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2021/22**

10. **Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2021/22**

11. **Cynllun Archwilio 2022 – Archwilio Cymru**

## 12. Materion Brys

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 2 uchod.

## RHAN II

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

## 13. Dim

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ddydd Llun 14 Mawrth 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 9.30am.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

D Docx (Prif Swyddog Tân); G Owens (Clerc a Swyddog Monitro); S Forshaw (Dirprwy Brif Swyddog Tân); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); D Hughes ac A Jones (Rheolwyr Ardal); G Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Georgiou (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Ni roddwyd rhybudd o unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 RHAGFYR 2021 A CHOFNODION O GYFARFODYDD EITHRIADOL A GYNHALIWYD AR 14 CHWEFROR 2022 A 25 HYDREF 2021

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Awdurdod Tân ac Achub eu cyflwyno er mwyn eu cymeradwyo:
20 Rhagfyr 2021
25 Hydref 2021 (cyfarfod eithriadol)
14 Chwefror 2022 (cyfarfod eithriadol)

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 Y DIWEDDARAF AM COVID

6.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am effaith Covid ar draws y Gwasanaeth.

6.2 Nodwyd mai bwriad strategol y Gwasanaeth drwy gydol y pandemig oedd 'cadw staff yn ddiogel, parhau i ddarparu ein gwasanaethau a gweithio drwy gyfnod yr adferiad'. Roedd y Gwasanaeth wedi cynnal cyfarfodydd rheoli parhad busnes yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod, a chofnodwyd pob penderfyniad.

6.3 Gyda'r rheolau yng Nghymru yn newid ar ddiwedd y mis, bydd y Gwasanaeth yn parhau i ddilyn cyngor Llywodraeth Cymru a bydd yn dechrau symud tuag at y 'normal' newydd a fydd yn cynnwys patrymau gweithio mwy cyfarwydd a dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb gydag asesiadau risg a mesurau rheoli cadarn.

6.4 Roedd y PSTC yn dymuno bod cofnod yn cael ei wneud o werthfawrogiad y prif swyddogion o ymrwymiad, proffesiynoldeb ac ymroddiad pob aelod o'r staff drwy gydol y pandemig ac o'u cefnogaeth barhaus wrth symud drwy gyfnod yr adferiad. Ategwyd sylwadau'r PSTC gan y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, a diolchwyd i holl staff GTAGC.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

7 Y BROSES BENODI A DYRCHAFU I'R STRWYTHUR NEWYDD

7.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am ddatrys y materion yn ymwneud â recriwtio a dyrchafu mewnol a rhoi strwythur newydd ar waith.

7.2 Esboniodd y PST fod proses "Recriwtio a Dethol Mewnol" newydd wedi cael ei datblygu dros y naw mis diwethaf a bod y cyrff cynrychioliadol wedi cytuno arni. Ar ôl ei phrofi, cafodd ei defnyddio i benodi i'r nifer o swyddi gwag rheolwyr gweithredol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ar yr un pryd, crëwyd strwythur mewnol diwygiedig ac ymgynghorwyd ynghylch hwnnw. Roedd y strwythur yn ceisio mynd i'r afael â'r angen am arweinyddiaeth amlwg, cysylltiad agosach a chymorth i orsafoedd. Caiff y strwythur newydd ei roi ar waith ar 1 Ebrill 2022, a chaiff ei adolygu ar ôl y flwyddyn gyntaf o'i weithredu.

7.3 Roedd y Prif Swyddog Tân eisiau i gofnod gael ei wneud o'i diolch i holl staff yr adran Adnoddau Dynol a'r adran Hyfforddi a'r Swyddogion, ar bob lefel, a oedd wedi gwneud y gwaith hyfforddi ac wedi cynnal yr holl asesiadau a chyfweliadau. Dylid eu llongyfarch am allu gwneud y gwaith a datrys y materion diwylliannol mewn amserlenni mor fyr. Ategodd yr Aelodau sylwadau'r PST ac roeddent yn falch o'r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud mewn amser cymharol fyr ers i'r PST gael ei phenodi i'r swydd.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r strwythur newydd a'r cynnydd a wnaed wrth ddatrys y materion recriwtio a dyrchafu mewnol.**

8 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

8.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr oedd wedi'i mynychu, gan gynnwys cyfarfod ar-lein o banel tân ac achub Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr oedd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân wedi'i fynychu. Cafwyd gwybodaeth am Rwydwaith y Gwasanaethau Brys, rôl diffoddwyr tân yn y dyfodol a gofynion diogelwch tân busnesau. Mynegwyd pryder gan gynrychiolydd pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru ynghylch cyllid a'r rhagamcanion ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

8.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYNLLUN CORFFORAETHOL YR AWDURDOD AR GYFER 2021-24

9.1 Cyflwynodd y PSC Morris fersiwn 2022/23 o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24 ac roedd angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar ei gyfer. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r saith amcan gwella a llesiant a'r camau arfaethedig i fynd i'r afael â'r amcanion hyn.

9.2 Atgoffwyd yr aelodau fod yr Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24 ym mis Mawrth 2021. Yna, ym mis Hydref 2021 cadarnhaodd yr Aelodau eu bwriad i barhau i fynd ynglŷn â'r un amcanion yn 2022/23. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2021, bu'r Aelodau yn meddwl am rai heriau allweddol y tynnwyd sylw atynt yn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân newydd, a'r canlyniadau i gyllideb yr Awdurdod. Roedd y gyllideb refeniw a gymeradwywyd wedyn ym mis Rhagfyr 2021 yn cynnwys cynnydd o £1.3m i ddelio â'r heriau hynny.

9.3 Nodwyd bod y diwygiadau i Gynllun Corfforaethol 2021-24 yn adlewyrchu'r heriau allweddol a nodwyd a'r camau arfaethedig i ddechrau mynd i'r afael â meysydd fel:

- cynnal lefel ddigonol o griwiau tân ar-alwad;
- sicrhau bod digon o adnoddau i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân;
- cael digon o gapasiti corfforaethol i gwrdd â'r galw presennol ac yn y dyfodol.

9.4 Roedd yr aelodau'n cefnogi'r diwygiadau ac yn diolch i awduron y cynllun corfforaethol am lunio dogfen gynhwysfawr.

9.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo diwygio Cynllun Corfforaethol 2021-24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn diwedd mis Mawrth 2022.**

10 STRATEGAETH GYFALAF 2022/23 – 2024/25

10.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r Strategaeth Gyfalaf am y cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2025 a'r dangosyddion darbodus a strategaethau'r trysorlys.

10.2 Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 24 Ionawr. Ar ôl cael esboniad manwl am y strategaeth, gan gynnwys y dangosyddion darbodus a'r strategaeth i'w dilyn ar gyfer benthyca a buddsoddi arian yr Awdurdod ym mlwyddyn ariannol 2022/23, roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi argymell bod yr awdurdod yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ei gymeradwyo.

10.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf a oedd yn ymgorffori'r polisi darpariaeth isafswm refeniw, strategaeth rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus.**

11 ALLDRO AMCANOL 2021/22

11.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn nodi'r gwariant refeniw a chyfalaf yn 2021/22, fel yr oedd pethau ar 31 Ionawr 2022.

11.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb refeniw 2021/22 o £37.074m yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020 ac mai'r sefyllfa alldro a ragwelir o hyd yw y bydd yr Awdurdod yn adennill costau mewn perthynas â'r gyllideb. Oherwydd cyfyngiadau Covid 19, roedd y gyllideb ar gyfer y cynllun cyfalaf wedi cael ei chadw dan adolygiad ac wedi cael ei diwygio yn ystod y flwyddyn, a'r alldro amcanol ar gyfer y rhaglen gyfalaf oedd £1.176m.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi:**
- **(i) rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft am flwyddyn ariannol 2021/22 fel y nodir yn yr adroddiad; a**
- **(ii) y cais i ail-gysoni'r gyllideb.**

12 DATGANIAD POLISI TÂL 2022/23

12.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur ddatganiad polisi tâl 2022/23 er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.

12.2 Nodwyd bod y datganiad polisi tâl yn ofyniad blynyddol o Ddeddf Lleoliaeth 2011 a rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo'r datganiad polisi tâl cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

12.3 **PENDERFYNWYD**
- **(i) nodi gofynion Deddf Lleoliaeth 2011; a**
- **(ii) cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.**

13 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

13.1 Fe wnaeth y Dirprwy Glerc gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r aelodau.

13.2 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor Safonau am eu gwaith, a **PHENDERFYNWYD nodi adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2021/22.**

14 GRŴP Y GWASANAETH TÂN CYNHWYSOL

14.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol a chynnig bod cyfarfodydd ffurfiol o'r grŵp yn dod i ben.

14.2 Cafodd yr aelodau wybod bod y cynnydd o ran gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym musnes y Gwasanaeth o ddydd i ddydd wedi digwydd i'r graddau fel bod llai o angen i gynnal cyfarfodydd ffurfiol o'r Grŵp. Cadarnhawyd fod gwaith yn cael ei gynllunio ar gyfer dechrau 2022/23 fel dull diogelu ychwanegol er mwyn sicrhau bod y camai yn Strategaeth Gwella Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol 2019-22, a oedd yn barhaus eu natur, yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol ym mholisïau, gweithdrefnau a/neu gynlluniau'r Gwasanaeth.

14.3 Diolchodd yr aelodau i'r Grŵp am ei waith, a **PHENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni Rhaglen Waith 2019-22 Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru;**
**(ii) nodi'r bwriad i wirio a chadarnhau i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth fod camau parhaus yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau, gweithdrefnau a/neu gynlluniau'r Gwasanaeth;**
**(iii) cefnogi'r cynnig i ddirwyn cyfarfodydd ffurfiol o Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol Gwasaneth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ben.**

15 RHEOLIADAU ARIANNOL

15.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur Reoliadau Ariannol diwygiedig yr Awdurdod er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau.

15.2 Atgoffwyd yr Aelodau fod y Rheoliadau Ariannol wedi cael eu cynnwys o fewn Cyfansoddiad yr Awdurdod a darparu'r fframwaith llywodraethu ar gyfer materion ariannol. Roedd y Rheoliadau wedi cael eu hadolygu a'i diwygio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.

15.3 Nodwyd hefyd fod y Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r rheoliadau ariannol yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr, ac wedi argymell eu bod yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod.

15.4 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rheoliadau ariannol.**

16 DIRPRWYO PWERAU DROS DRO CYN Y CYFARFOD BLYNYDDOL

16.1 Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad a oedd yn angenrheidiol er mwyn dirprwyo pwerau o ddiwedd swydd aelodau cyfredol yr Awdurdod Tân ac Achub i gyfarfod cyntaf yr Awdurdod ar ôl yr etholiadau.

16.2 Esboniodd y Clerc fod Aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi tan yr etholiadau ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, mae yna gyfnod byr rhwng yr etholiadau a chyfarfod blynyddol yr Awdurdod pan na fydd neb yn dal swyddi, felly mae angen dirprwyo'r awdurdod i weithredu i'r Prif Swyddog Tân ar gyfer penderfyniadau na ellir oedi yn eu cylch.

16.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) bod holl bwerau'r Awdurdod Tân ac Achub, ei bwyllgorau a deiliaid swyddi yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Trysorydd, am y cyfnod rhwng 10 Mai 2022 a chyfarfod cyntaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mehefin 2022.**

**(ii) nodi y bydd y dirprwyaethau hyn yn gymwys dim ond i'r graddau y mae pwerau o'r fath yn ymwneud â phenderfyniadau na ellir yn rhesymol eu gohirio tan ddyddiad y cyfarfod cyntaf hwnnw.**

Cyn cau'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod. Esboniodd y Cyng. Lewis mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf o'r ATA gan ei fod yn ymddeol o'i rôl fel cynghorydd; byddai hyn yn ddiwedd ar 46 mlynedd o gysylltiad â'r gwasanaeth tân yng Ngogledd Cymru. Dymunodd yn dda i bawb ar gyfer y dyfodol.

Ar ran yr Aelodau, diolchodd y Cyng. Rees i'r Cyng. Lewis am y ffordd effeithiol yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau fel Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub ac am fod yn llysgennad rhagorol dros y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Awdurdod.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – PSTC Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid** |
| Pwnc | **Diwedd blwyddyn ariannol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r sefyllfa ariannol ddrafft ar ddiwedd y flwyddyn a pherfformiad 2021/22 i'r Aelodau. Mae'r adroddiad yn ymgorffori'r canlynol:

(i) Datganiad o Gyfrifon drafft 2021/22 (y Cyfrifon) a gyflwynir i'w harchwilio (Atodiad 1). Gofynnir hefyd i'r Aelodau ddirprwyo'r dasg o gymeradwyo'r fersiwn archwiliedig derfynol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2022;
(ii) cadarnhau'r cronfeydd arfaethedig fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2022 i'w cymeradwyo; a
(iii) crynodeb o'r dyledion drwg a ddilëwyd yn ystod 2021/22.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb refeniw 2021/22 o £37.074m yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020. £0.07m o danwariant yw'r sefyllfa alldro derfynol, sy'n cynnwys trosglwyddo £2.4m i gronfeydd a glustnodwyd.

3 Roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo cyllideb gyfalaf 2021/22 o £3.08m ar 9 Tachwedd 2020. Roedd y rhaglen gyfalaf wedi parhau dan adolygiad drwy gydol y flwyddyn a chytunwyd ar gynllun cyfalaf wedi'i ddiweddaru o £2.386m yn ystod y flwyddyn. Y sefyllfa derfynol oedd gwariant o £1.127m.

4 Mae'r Awdurdod yn cynnal cronfeydd a glustnodwyd i ddarparu cronfa ariannol wrth gefn ar gyfer digwyddiadau neu risgiau yn y dyfodol. Ar 31 Mawrth 2022, mae cyfanswm o £5.7m yn cael ei ddal mewn cronfeydd a glustnodwyd a chronfeydd grantiau.

5 Cafodd dyledion drwg yn werth £787.42 eu dileu yn 2021/22.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r aelodau:

(i) nodi sefyllfaoedd alldro refeniw a chyfalaf drafft fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2021/22;

(ii) dirprwyo'r dasg o gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig terfynol 2021/22 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2022;
(iii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd;
(iv) nodi'r dyledion drwg a ddilewyd yn 2021/22.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

7 Nid yw'r aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

**CEFNDIR**

8 Mae Datganiad o Gyfrifon drafft 2021/22 wedi'i nodi yn Atodiad 1, a chafodd ei gyflwyno i'w archwilio ar 31 Mai 2022. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa alldro'r gwariant refeniw a chyfalaf terfynol sydd yn y datganiad o gyfrifon drafft, gan gynnwys crynodeb o eitemau allweddol ar y fantolen sy'n cynnwys cynnal cronfeydd a glustnodwyd. Mae'r adroddiad yn cadarnhau hefyd beth yw'r sefyllfa alldro ar gyfer Dangosyddion Darbodus yr Awdurdod, sydd yn atodiad 2.

9 Yn yr adroddiad hwn, ceir manylion y grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn.

**GWYBODAETH**

**CYLLIDEB REFENIW**

10 Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa alldro refeniw terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Mae hyn yn nodi £0.07m o danwariant o gymharu â chyllideb o £37.074m, ac mae'n cynnwys cyfraniad i'r cronfeydd a glustnodwyd.

| | **2021/22 Cyllideb £000** | **2021/22 Alldro £000** | **2021/22 Amrywiad £000** |
|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 28,379 | 26,916 | -1,463 |
| Safleoedd | 2,725 | 2,579 | -146 |
| Cludiant | 983 | 1,034 | 51 |
| Cyflenwadau a thaliadau trydydd parti | 5,005 | 4,837 | -168 |
| Incwm | -2,485 | -3,041 | -556 |
| Ariannu Cyfalaf a Thaliadau Llog | 2,467 | 2,305 | -162 |
| Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd wrth gefn | 0 | 2,374 | 2,374 |
| **Cyfanswm y Refeniw** | **37,074** | **37,004** | **-70** |

**Costau Gweithwyr**

11 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, y gyllideb ar gyfer gwariant yn ymwneud â gweithwyr oedd £28.37m, sef 71% o'r gwariant. Yr alldro terfynol yw sefyllfa danwariant o £26.92m. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod nifer fawr o swyddi gwag ar draws y Gwasanaeth. Er bod y swyddi hyn yn parhau'n hanfodol i gyflawni amcanion yr Awdurdod yn y tymor hir, nid oedd modd cwblhau'r gwaith recriwtio yn derfynol oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a'r farchnad swyddi ar hyn o bryd.

12 Mae'r gwaith recriwtio wedi ailddechrau, llenwyd sawl swydd wag a chaiff y sefyllfa ei monitro'n agos yn ystod 2022/23. Fodd bynnag, ar 31 Mawrth, roedd 20 o swyddi cyfwerth â llawn amser ar draws amrywiaeth o swyddogaethau. Hefyd, roedd cyllideb wedi'i neilltuo i gael 40 o gynnydd yn nifer y diffoddwyr tân wrth gefn gan fod digwyddiadau recriwtio wedi cael eu trefnu.

**Safleoedd**

13 Y gyllideb ar gyfer safleoedd oedd £2.725m, a'r alldro oedd £0.146m o danwariant. Yn dilyn apeliadau prisio llwyddiannus, cafwyd £0.30m o arbedion cyfraddau annomestig cenedlaethol.

14 Ers llacio cyfyngiadau Covid, bu'n anodd sicrhau contractwyr i gwblhau gwaith erbyn 31 Mawrth felly gwnaethpwyd darpariaeth yn y cronfeydd a glustnodwyd i sicrhau bod y cyllid ar gael er mwyn cwblhau'r rhain.

**Cludiant**

15 Y gwariant ar gyfer costau'n ymwneud â chludiant oedd £1.034m, sydd £0.051m yn fwy na'r gyllideb. Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd amlwg yng nghost diesel a phetrol yn ystod rhan olaf y flwyddyn, sy'n £0.032m o'r gorwariant.

**Cyflenwadau a Thaliadau Trydydd Parti**

16 Y gwariant ar gyflenwadau oedd £4.837m, sef tanwariant o £0.168m o gymharu â'r gyllideb. Mae buddsoddiad sylweddol mewn trwyddedau cyfrifiadurol, cyfarpar a systemau TGCh wedi parhau fel rhan o'r agenda gweithio ystwyth a threfniadau parhad busnes. Gwariwyd cyfanswm o £2.76m ar systemau TGCh a chyfathrebu. Cafodd costau eu gwrthbwyso'n rhannol gan grant ar ddiwedd y flwyddyn tuag at waith a gwblheir wrth baratoi ar gyfer uwchraddio Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (£0.210m).

17 Roedd cronfa a glustnodwyd wedi cael ei chynyddu i £0.848m i sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer parhau â'r gwaith hwn.

18 Profir cynnydd mewn prisiau ar hyn o bryd, a hynny o ran yr holl gyflenwadau a gwasanaethau, a chrëwyd cronfa wrth gefn yn werth £0.25m i helpu i wrthbwyso'r effaith yn y dyfodol.

**Ariannu Cyfalaf**

19 £2.467m oedd y gyllideb ariannu cyfalaf. Mae'r costau ariannu cyfalaf yn cynnwys y ffi ar refeniw am ddibrisiant a hefyd cost benthyca. Mae'r £0.162m o danwariant yn adlewyrchu gostyngiad mewn cyfraddau llog yn ogystal â gostyngiad yn yr angen i fenthyca.

20 Clustnodwyd cronfa o £0.20m i sicrhau nad yw'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn effeithio ar y sefyllfa ariannol.

**Incwm**

21 £0.356m (net o grantiau) oedd y gyllideb incwm, gyda £0.413m o incwm ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r £0.057m o gynnydd yn yr incwm wedi digwydd yn bennaf yn sgil secondio staff, gan gynnwys i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i helpu gyda'r rhaglen frechu, ac yn sgil gwerthu cyfarpar.

**Arian Grant Refeniw**

22 Nodir isod ddadansoddiad o'r arian grant a dderbyniwyd ar gyfer 2021/22.

23 Dyfarnwyd dau grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn i uwchraddio cyfleusterau hyfforddi ac i ariannu'r gwaith a gwblhawyd ar systemau TG i hwyluso rhwydwaith newydd y gwasanaethau brys.

| | **Dyraniad £000** | **Gwir £000** |
|---|---:|---:|
| Lleihau Llosgi Bwriadol | 157 | 157 |
| Cyfarpar Diogelwch yn y Cartref | 223 | 213 |
| Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc | 148 | 160 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol Cymru gyfan | 154 | 233 |
| Cyfraniadau Pensiwn y Diffoddwyr Tân | 1,089 | 1,089 |
| Ffioedd Gwasanaeth Firelink | 416 | 416 |
| Uwchraddio Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys | 210 | 210 |
| Uwchraddio Cyfleuster Hyfforddi | 146 | 146 |
| Gofyn a Gweithredu | 10 | 10 |
| **Cyfanswm yr Arian Grant** | **2,533** | **2,634** |

Er bod y grant ar gyfer uwchraddio'r cyfleuster hyfforddi wedi cael ei gymeradwyo yn 2021/22, caiff y gwaith ei gwblhau yn 2022/23 fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru.

**RHAGLEN GYFALAF**

24 Roedd y cynllun cyfalaf diwygiedig yn werth cyfanswm o £2.386m. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chael 8 peiriant tân newydd yn lle hen rai (£1.95m), a archebwyd yn 2020/21. Oherwydd yr amser adeiladu, daw'r peiriannau hyn yn weithredol yn 2022/23 pan fydd y taliad terfynol yn dod yn ddyledus.

25 Cytunwyd y gellid archebu 5 peiriant, a oedd wedi'u cynnwys yng nghynllun cyfalaf 2022/23, yn ystod 2021/22 er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu danfon yn 2022/23.

26 Y sefyllfa derfynol oedd gwariant o £1.176m.

| | | Cynllun Cyfalaf @ Ebr 2021 £m | Cynllun Cyfalaf @ 31 Ion 2022 £m | Rhag-amcan £m | Cario drosodd £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Fflyd | Cerbydau a pheiriannau newydd | 2.028 | 2.099 | 1.176 | 0.922 |
| Cyfleusterau | Uwchraddio adeiladau | 0.790 | 120 | 0 | 0.120 |
| Technoleg Gwybodaeth | Uwchraddio systemau a gwaith cysylltiol | 0.167 | 167 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm** | **2.985** | **2.386** | **1.176** | **1.042** |

27 Dyma gyllid cynllun cyfalaf 2021/22:

| **Cyllid** | **Swm £m** |
|---|---|
| Benthyciadau | 1.027 |
| Cronfeydd a glustnodwyd | 0.149 |
| **Cyfanswm** | **1.176** |

**MANTOLEN**

28 Mae'r Fantolen yn rhoi rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod ac mae'n cynnwys asedau a rhwymedigaethau.

### Asedau Sefydlog a Benthyca

29 Mae asedau sefydlog yn ymwneud ag eitemau sydd â chost uwch na £5,000 ac y mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio dros gyfnod o fwy na 12 mis. Mae asedau sefydlog yr Awdurdod yn cynnwys tir ac adeiladau, cerbydau, cyfarpar gweithredol a chyfarpar TGCh a chostau meddalwedd. Y gwerth a amcangyfrifir ar 31 Mawrth 22 yw £38.97m (2020/21: £40.1m).

30 Cafwyd y prisiad diwethaf ar dir ac adeiladau yn 2020/21. Tir ac adeiladau'r Awdurdod yw 76% o'r holl asedau, gyda gwerth llyfr net o £31.0m ar 31 Mawrth 2022.

31 Mae priswyr annibynnol yr Awdurdod wedi tynnu sylw at ansicrwydd parhaus ynghylch gwerth asedau ar draws y sector cyhoeddus. Felly, mae hyn yn parhau'n faes ansicr a gwneir gwaith i benderfynu a oes angen prisiad pellach cyn cwblhau'r archwiliad.

32 Caniateir i'r Awdurdod gael trefniadau benthyca i ariannu prynu asedau sefydlog. Ar 31 Mawrth 2022, gwerth y benthyciadau oedd £24.43m (2020/21: £26.2m).

33 Mae'r costau ariannu cyfalaf o fewn y sefyllfa refeniw yn cynnwys £0.350m yn ymwneud â thaliadau llog ar fenthyciadau.

### Asedau Cyfredol a Rhwymedigaethau Cyfredol

34 Rhaid i'r Awdurdod gadw adnoddau digonol i sicrhau ei fod yn gallu cwrdd â'i ymrwymiadau. Gwneir hyn drwy reoli arian parod ochr yn ochr â balansau dyledwyr a chredydwyr. Ar ddyddiad y fantolen, roedd yr Awdurdod wedi cofnodi balans o £6.34m yn ymwneud ag arian parod a dyledwyr. Caiff hyn ei wrthbwyso gan £3.14m yn ymwneud â symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod i gredydwyr.

35 Roedd lefel yr arian parod yn uchel yn sgil cadw digon o arian parod i ariannu rhan olaf y peiriannau tân yn y rhaglen gyfalaf.

### Rhwymedigaethau Pensiwn

36 Rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif am y rhwymedigaethau a amcangyfrifir ynghylch ei gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Caiff gwerth y rhwymedigaethau ei gyfrifo gan actiwari pob cynllun, ac amcangyfrifir ei fod yn £327.50m ar 31 Mawrth 2022 (2020/21: £337.3m). Mae'r prisiad hwn yn cynnwys asesiad actiwaraidd costau cyfreithiol cenedlaethol, sy'n cynnwys dyfarniad McCloud ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran mewn cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus.

**Cronfeydd Defnyddiadwy**

37 Cronfa'r Awdurdod ar 31 Mawrth 2022 yw £7.23m. Mae hyn yn cynnwys £5.71m mewn cronfeydd a glustnodwyd a £01.52m mewn cronfeydd cyffredinol.

38 Clustnodir cronfa ar gyfer eitemau penodol sy'n hysbys ar adeg dyddiad y fantolen ac a allai greu rhwymedigaeth yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn nodi cronfeydd a glustnodwyd gan yr Awdurdod.

| Cronfa wrth gefn | Gwerth ar 1 Ebrill 2020 £000 | Trosglwy ddiadau £000 | Gwerth ar 31 Mawrth 2021 £000 | Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau | 85 | 0 | 85 | Dyma gronfa hirdymor a sefydlwyd i liniaru effaith costau na ragwelwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r cynlluniau pensiwn. |
| Cynllun Radio | 500 | 250 | 750 | Mae'r Awdurdod yn derbyn arian grant i gefnogi rhwydwaith cenedlaethol y gwasanaethau brys oherwydd mae rhwydwaith newydd wrthi'n cael ei gaffael. Sefydlwyd y gronfa i liniaru rhag y risg o gostau ychwanegol yn ystod y cyfnod caffael. |
| Lleihau Grant Diogelwch Tân | 195 | 0 | 195 | Mae'r Awdurdod yn gwneud gwariant refeniw drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru. Cytunir ar y rhain yn flynyddol, ac mae'r gronfa'n bodoli i fynd i'r afael â chostau byrdymor yn deillio o leihau arian grant. |
| Cyllid Cyfalaf | 100 | 200 | 300 | Lliniaru effaith amrywiadau mewn cyfraddau llog |
| Trwsio Hydrantau Tân | 90 | 0 | 90 | Ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni |
| Hyfforddi | 100 | 150 | 250 | Gweithredu gofynion deddfwriaethol ynghylch mwy o hyfforddiant ac argymhellion ar gyfer y dyfodol a ddisgwylir yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus Grenfell. |
| Cronfa Gyfreithiol | 200 | 25 | 225 | Neilltuo swm i ddarparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol |
| Gwelliannau i Wasanaethau | 800 | 51 | 851 | Ariannu costau a geir wrth gyflawni newid trawsffurfiadol a gwella gwasanaethau |

| Cronfa wrth gefn | Gwerth ar 1 Ebrill 2020 £000 | Trosglwyddiadau £000 | Gwerth ar 31 Mawrth 2021 £000 | Pwrpas y Gronfa Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| Gwelliannau i Gyfleusterau | 490 | 832 | 1,322 | Sicrhau bod adeiladau'n cwrdd â'r safonau gofynnol a gwella effeithlonrwydd ynni |
| Stoc | 250 | 0 | 250 | Ariannu rhan o gostau'r gwaith o gael cit PPE a gwisgoedd newydd |
| Digwyddiad Mawr | 150 | 0 | 150 | 2020/21: ariannu costau ychwanegol ar gyfer digwyddiadau mawr yn y dyfodol |
| Gwelliannau i Systemau | 502 | 346 | 848 | 2020/21: arweiniodd Covid 19 at oedi wrth ddiweddaru systemau TG. Sefydlwyd cronfa wrth gefn i sicrhau bod cyllid ar gael i orffen y gwaith |
| Chwyddiant | 0 | 250 | 250 | 2021/22: lliniaru effaith prisiau uwch |
| Grant Llywodraeth Cymru – Uwchraddio Cyfleusterau Hyfforddi | 0 | 146 | 146 | 2021/22: arian grant i'w wario yn 2022/23 ar gyfer uwchraddio cyfleusterau hyfforddi. |
| **Cyfanswm** | **3,462** | **2,250** | **5,712** | |

**DYLEDION DRWG**

39 Cafodd dyledion drwg yn werth £787.42 eu dileu yn 2021/22.

40 Cafodd cyfanswm o 6 anfoneb eu dileu, yn ymwneud â hurio ystafell yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl (£390.00) a gordaliadau i staff sydd wedi gadael y Gwasanaeth (£397.42).

41 Er ymdrechion niferus, ni fu modd adfer y symiau hyn. Ystyrid nad yw'r balansau'n economaidd i fynd ynglŷn â nhw ymhellach.

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae cyllid i'r Gwasanaeth o fudd i gymunedau Gogledd Cymru ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Caiff y gyllideb ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae'n ofynnol yn gyfreithiol fod yr Awdurdod lunio Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Caiff incwm a gwariant ei fonitro'n agos er mwyn sicrhau bod achosion o wyro oddi wrth y gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a bod yr Aelodau'n cael gwybod amdanynt. |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 20212** |
| Swyddog Arweiniol | **Shan Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol (01745 352785)** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 202122 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Fframwaith CIPFA/*Solace Delivering Good Governance in Local Government Framework* (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22 ar gael yn Atodiad 1 ac mae wedi cael ei baratoi yn unol â'r egwyddorion sydd wedi eu nodi yn y Fframwaith. Mae'r blaenraglen waith ar gyfer 2022/23 wedi ei chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2021/22. Caiff ei asesu gan yr archwiliwr allanol i gadarnhau ei fod yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi ei lunio yn unol â'r Fframwaith.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau
- (i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22;
- (ii) nodi'r blaenraglen waith ar gyfer 2022/23;
- (iii) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22.

**CEFNDIR**

6 Ers 2010/11 mae wedi bod yn ofynnol i bob corff llywodraethu lleol, o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gyhoeddi fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

7 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu a dangos bod system llywodraethu corfforaethol gadarn ar waith ledled y sefydliad.

**GWYBODAETH**

8 Yn 2016, fe gyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith lywodraethu newydd, Developing Good Governance in Local Government: Framework (y Fframwaith). Mae'r Fframwaith wedi'i drefnu o gwmpas saith o egwyddorion llywodraethu, sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

9 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau'r canlynol:

(i) ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
(ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n gywir; a
(iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol i gyflawni'r blaenoriaethau cytunedig er budd pobl leol.

10 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021/22 ar gael yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2022/23.

11 Caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'i drefniadau ariannol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad yn gysylltiedig ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC ac mae'n dangos fod ganddo drefniadau llywodraethu ar waith i alluogi'r Gwasanaeth i ddarparu ymateb brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Y Gyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â'r safonau penodedig. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith lywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

## Cynnwys


Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da ........ 1

Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu ........ 2

Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu ........ 3

Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod ........ 4

Egwyddorion Craidd ........ 5

Sut mae'r Awdurdod wedi Delio â Chamau Gweithredu Llywodraethu 2020/21? ........ 12

Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu 2022/23 ........ 15

Barn a Chasgliad Llywodraethu ........ 18

# Fframwaith Darparu Llywodraethiant Da

Mae Fframwaith CIPFA/Solace ar Ddarparu Llywodraethiant Da mewn Llywodraeth Leol (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac i ddangos bod:


- busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol;
- arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol amdano; a bod
- adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac sydd o fydd i bobl yr ardal.

Er mwyn cyflawni ei amrediad eang o swyddogaethau, rhaid i'r Awdurdod fodloni amrywiaeth o amcanion gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dros y tymor byr, canolig a hir. Mae hyn yn golygu ei fod yn agored i gyfres o gyfyngiadau a chymhellion allanol a mewnol sy'n wahanol i rai yn y sector preifat, ac mae pob un yn effeithio ar ei drefniadau llywodraethu. Un darn allweddol o ddeddfwriaeth yng Nghymru yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynnu bod yr Awdurdod yn ystyried y tymor hir wrth wneud ei benderfyniadau a'i fod yn gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.

Felly, mae gan randdeiliaid ddiddordeb mewn materion fel:

- a yw allbynnau arfaethedig yr Awdurdod wedi cael eu cyflawni a'r canlyniadau wedi digwydd; ac
- a yw hyn wedi cael ei wneud mewn ffordd effeithlon, economaidd a theg.

Nodir isod yr egwyddorion craidd sy'n sail i fframwaith CIPFA/Solace. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi sut mae'r Gwasanaeth yn cwrdd â'r egwyddorion hyn.



## Cyfranwyr Allweddol at Ddatblygu a Chynnal y Fframwaith Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Yr Awdurdod Tân ac Achub | Mae'n darparu arweiniad strategol, rhyngwyneb gwleidyddol a her gorfforaethol ar gyfer darparu gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru, gan annog cyfranogiad gan y cyhoedd a gan gynnal ei faterion mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'n cytuno ar y Cynllun Gwella a Llesiant, a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf. |
| Y Panel Gweithredol | Mae'n monitro perfformiad y Gwasanaeth ac mae'n gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynghylch ei bolisïau allweddol, gan gynnwys y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Panel yn adolygu'r gofrestr risgiau strategol. |
| Y Gweithgor Cynllunio | Mae'n gwneud gwaith manwl yn gysylltiedig â phroses gynllunio a gosod y gyllideb yr Awdurdod. Mae'n cyflwyno ei sylwadau i'r Panel Gweithredol, sydd yn ei dro yn gwneud argymhellion ar gyfer amcanion gwella/lleihau risg/llesiant i'r ATA. |
| Pwyllgor Archwilio | Mae'n darparu adolygiad annibynnol o'r fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, ac mae'n goruchwylio'r adroddiadau ariannol, gan gynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r cyfrifon blynyddol. |
| Pwyllgor Safonau | Mae'n hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod, ac mae'n goruchwylio'r polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo statud yn caniatáu, mae'n derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau ac yn cynnal neu'n goruchwylio ymchwiliadau ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod. |
| Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | Mae'n gosod ac yn arwain y gwaith o weithredu'r safonau llywodraethu yn y Gwasanaeth. Mae'n derbyn y cynllun gwella blynyddol, ac mae'n ei fwydo i'r hunan-asesiad blynyddol. |
| Archwilio Mewnol | Mae'n darparu barn annibynnol a gwrthrychol blynyddol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau rheolaeth fewnol, y trefniadau rheoli risg a llywodraethu. Mae'n ymchwilio i dwyll ac anghysonderau. |

## Crynodeb: Trefniadau Llywodraethu

Rhaid i'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau bob blwyddyn i sicrhau bod ganddo system gadarn ar gyfer llywodraethu. Mae crynodeb o'r pethau sy'n cyfrannu'n allweddol i'r broses hon ar gael ar dudalen 2, ac maent yn cynnwys:

- Mynd ati'n rheolaidd i adolygu effeithiolrwydd Cyfansoddiad yr Awdurdod.
- Cael Awdurdod a strwythur pwyllgorau sy'n:
    - monitro effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg;
    - mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r trefniadau llywodraethu;
    - ystyried ac adolygu strategaethau, cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol ac allanol; ac
    - adolygu, craffu a chymeradwyo'r datganiad blynyddol o gyfrifon.
- Cael Bwrdd Gweithredol sy'n:
    - darparu arweiniad ar lywodraethu;
    - cyfrannu at gwblhau ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; ac yn
    - darparu cyfarwyddyd clir i'r Gwasanaeth a'r uwch reolwyr.
- Defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau i oleuo'r trefniadau llywodraethu, er enghraifft:
    - adroddiadau perfformiad;
    - trefniadau rheoli risg;
    - adroddiadau rheoleiddiwr allanol; a'r
    - Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Ar dudalennau 5 – 11, nodir y llwyddiannau mewn perthynas â'r egwyddorion craidd. Mae'r camau gwella y mae'r Awdurdod wedi cytuno arnynt ar gyfer 2021/22 i'w gweld ar dudalen 15, lle cadarnheir y cynnydd a wnaed.

**Effaith Covid-19 ar Lywodraethiant**

Ym mis Mawrth 2021, roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-24, ac adolygodd a diweddarodd hwnnw ym mis Mawrth 2022. Y Cynllun hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd sy'n crynhoi blaenoriaethau strategol a chamau arfaethedig yr Awdurdod, ac mae'n darparu'r sail ar gyfer adrodd yn rheolaidd a thryloyw am gynnydd.

Roedd yr Awdurdod yn cydnabod yr effaith y mae COVID-19 wedi'i gael ar ei gynlluniau ei hun, ar weithlu'r Gwasanaeth ac ar ddarparu gwasanaethau yn y gymuned. Yn anochel, cafwyd peth oedi yn y gweithgarwch a gynlluniwyd, ond mae'r profiad hwn hefyd wedi rhoi cyfle i feddwl am lwybr yr Awdurdod ar gyfer y dyfodol, gyda phersbectif newydd ynghylch sut i symud tuag at gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor.

# Crynodeb o Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
Bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid
Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
Penderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a fwriedir
Datblygu gallu'r Awdurdod, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i weithwyr cyflogedig
Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref
Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd

**Ffynonellau Tystiolaeth**

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Cynllunio ariannol
- Trefniadau partneriaeth
- Strategaeth a pholisïau Adnoddau Dynol
- Rheolau Gweithdrefnau Contractau
- Cyfansoddiad
- Swydd-ddisgrifiadau
- Prif Swyddog Tân
- Trysorydd
- Swyddog Monitro
- Adroddiadau a gyhoeddwyd
- Cynllun Ymgysylltu Cymunedol
- Strategaeth Gyfathrebu
- Cynllun Gwella a Llesiant
- Asesiadau Effaith Integredig

**Ffynonellau Sicrwydd**

- Adroddiadau perfformiad
- Adroddiadau ariannol
- Trefniadau democrataidd
- Adroddiadau gan archwilio mewnol a rheoleiddwyrAdroddiadau Archwilio Mewnol
- Byrddau partneriaeth
- Adborth gan gwsmeriaid
- Ymgynghoriadau

**Aelodau**

- Yr Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau

**Gweithrediaeth**

- Bwrdd Gweithredol

**Ffynonellau Tystiolaeth**

- Arweinyddiaeth
- Gwerthoedd Craidd
- Trefniadau cydraddoldeb
- Trefniadau Rhyddid Gwybodaeth
- Codau Ymddygiad
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Safonau
- Cyngor ac arweiniad arbenigol
- Rheoli risgiau
- Rheolaethau mewnol
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Rheoli gwybodaeth
- Staff ac aelodau ethoedig
- Prosesau cwynion

↓

**Asesiad Gwella a Llywodraethu BLynyddol wedi'i lofnodi gan Y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân**

↓

**Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu wedi'i adolygu gan y Bwrdd Gweithredol**

## Egwyddorion Craidd

**Ymddwyn gydag uniondeb gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a**

- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau, ac mae'n cynnwys y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn y gyfraith a'u bod yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cyfansoddiad.
- Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cod Ymddygiad yr Aelodau, ac mae hwnnw'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau.
- Pan fo angen, ceir cyngor cyfreithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Mae Codau Ymddygiad ar gael ar gyfer yr Aelodau a'r Swyddogion, sy'n mynnu eu bod yn datgan buddiannau busnes ac yn cofnodi derbyn rhoddion a/neu letygarwch.
- Mae gan yr Awdurdod drefn ar gyfer derbyn ac ymateb i unrhyw gwynion. Mae adroddiad cryno o'r cwynion a'r negeseuon o werthfawrogiad yn cael ei roi i'r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn.
- Mae polisïau allweddol ar gael i atal a lleihau'r perygl o dwyll. Mae'r polisïau'n cynnwys: Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contractau. Pan amheuir bod anghysonder, mae trefniadau ar gael i sicrhau bod ymchwiliad trylwyr i hynny.
- Mae'r polisi recriwtio, y cyfnod cynefino a'r prosesau hyfforddi yn ymgorffori ymddygiadau personol a gwerthoedd moesegol. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth wedi'u gwreiddio'n llwyr, ac maent yn cynnwys: gwasanaeth i'r gymuned, pobl, amrywiaeth a gwella.
- Meddu ar wobrau Iechyd Corfforaethol Efydd a Phlatinwm Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cafodd Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol ei sefydlu i ystyried materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a materion diwylliannol. Mae'r Grŵp wedi adolygu a diweddaru ein gwerthoedd craidd yn 2019/20 i adlewyrchu ein ffyrdd modern a phroffesiynol o weithio - gwerthoedd craidd
- Ymchwilir yn unol â Llawlyfr Disgyblu'r Gwasanaeth i achosion disgyblu ac unrhyw honiadau o ddrwgweithredu.
- Cyhoeddir Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Caiff yr amcanion cydraddoldeb eu hadolygu'n flynyddol, a'u monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Gymraeg, rhaid i bob aelod newydd o'r staff gael sgiliau Cymraeg ar Lefel 2 o leiaf.
- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae hwn yn nodi'r amcanion gwella fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae polisi a gweithdrefn Diogelu yn eu lle i gyfeirio pobl fregus y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â hwy at asiantaethau eraill.

## Egwyddorion Craidd

**Bod yn agored ac ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid**

- Caiff pob cyfarfod ei hysbysebu, ac maent yn agored i'r cyhoedd (yn ddibynnol ar reoliadau'r pandemig a chanllawiau cyfarfodydd aml-leoliad), mae cyfarfodydd yr Awdurdod llawn yn cael eu gweddarlledu. Mae agendâu a phapurau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- Mae gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod fel rhan o'r cynllun cyhoeddi. Darperir fersiynau hawdd i'w darllen/fersiynau siarad a darllen/fersiynau Cymraeg.
- Mae trefniadau ar waith i ymgynghori â'r cyhoedd i wahodd barn rhanddeiliaid cyn datblygu a gweithredu newidiadau allweddol. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar y Cynllun Gwella a Llesiant.
- Mae'r canlynol hefyd yn dangos bod ymrwymiad i fod yn agored:
  - cynnal asesiadau effaith ar gyfer pob penderfyniad allweddol;
  - y Weithdrefn Cwynion a Chlod, sy'n cynnwys trefniadau adrodd yr Awdurdod;
  - y Strategaeth Ymgysylltu ag Ymgynghori â'r Cyhoedd (a gyflwynwyd i gyfarfod y Panel Gweithredol ym mis Gorffennaf 2018);
  - ymgysylltu â Chyrff Cynrychioli'r Gweithwyr;
  - aelodaeth o Grŵp Cydraddoldeb Gogledd Cymru.
  - roedd Archwilio Cymru wedi adnabod meysydd o weithgarwch ymgysylltu da, ond roeddent yn cydnabod bod angen symud tuag at ddull strategol integredig ar gyfer cynnwys pobl. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn Adolygiad o Gyfranogiad a bydd yn cael ei ystyried ymhellach fel rhan o'r asesiad blynyddol o berfformiad.
- Defnyddir amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys:
  - cyfathrebu'n uniongyrchol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gyda chyfrifon ar Facebook a Twitter. Y gallu i gofrestru ar y wefan i dderbyn diweddariadau ebost ar faterion penodol;
  - ymgysylltu â phobl ifanc drwy raglen y Ffenics, cadetiaid tân ac ymweliadau ag ysgolion;
  - gwaith ymgysylltu diogelwch cymunedol â thrigolion a busnesau;
  - digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol a mynychu digwyddiadau *park run* i recriwtio diffoddwyr tân;
  - mynd i ddiwrnodau agored/digwyddiadau – er enghraifft yr Eisteddfod;
  - cyfathrebu'n fewnol drwy'r Crynodeb Wythnosol a chylchlythyr Y Fflam;
  - cymryd rhan yn Grŵp Rhybuddio a Hysbysu'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, gan gynnwys cytundeb i aildrydar negeseuon i gyrraedd cynulleidfa ehangach;
  - ymgyrchoedd cyfathrebu cyhoeddus, dan arweiniad y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol.
- Mae trefniadau partneriaethol i sicrhau canlyniadau penodol. Er enghraifft, mae'r Prif Swyddogion yn mynychi'r pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Cydweithio â phartneriaid eraill yn y Gwasanaethau Brys..

## Egwyddorion Craidd

**Diffinio'r canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy**

- Mae'r Cynllun Gwella a Llesiant yn nodi cyfeiriad strategol yr Awdurdod, ac mae'n nodi'r amcanion gwella yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a'r amcanion llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Mae gan y Gwasanaeth bedwar gwerth craidd - Pobl, Amrywiaeth a Gwelliant, Anelu at Ragoriaeth a Gwasanaeth i'r Gymuned. Mae'r rhain yn crynhoi'r egwyddorion a'r gwerthoedd personol y mae'r staff yn cael eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.
- Mae'r Gwasanaeth wedi ennill achrediad y Rhuban Gwyn sy'n dangos ei ymrwymiad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod.
- Mae dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth i gael trefniadau parhad busnes. Mae cynlluniau wedi cael eu diweddaru ymhob rhan o'r Gwasanaeth. Mae cydweithio parhaus yn digwydd â'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i wella'r gwaith cynllunio ac i ystyried y risgiau cyfredol. Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn cynnwys ffrwd waith ar barhad busnes.
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a phroses flynyddol y gyllideb, yn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at flaenoriaethau'r Awdurdod.
- Mae gwaith mewn partneriaeth yn digwydd pan fo amcanion cyffredin a manteision o gydweithio - er enghraifft Bwrdd Strategol Lleihau Llosgi Bwriadol, Byrddau Gwasanaethau Lleol.
- Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol yn nodi'r broses i ganfod a rheoli'r modd mae'n agored i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni amcanion neu weithgareddau. Caiff y polisi ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu canfod a'u hasesu'n briodol. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cofnodi'r risgiau hyn, maent yn cael eu monitro'n rheolaidd gan yr adran Cynllunio Corfforaethol ac adroddir yn eu cylch i'r Panel Gweithredol.
- Mae penderfyniadau allweddol yn agored i asesiad effaith integredig, sy'n ystyried cydraddoldeb; diogelu data; iechyd; diogelwch a llesiant; y Gymraeg, cyllid; cynaliadwyedd a staffio; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021.
- Mae polisi a gweithdrefn Diogelu yn eu lle i gyfeirio pobl fregus y daw'r Gwasanaeth i gysylltiad â hwy at asiantaethau eraill.

## Egwyddorion Craidd

**Penderfynu pa ymyriadau sydd eu hangen i gael y canlyniadau a fwriedir**

- Ymgynghorir â'r cyhoedd fel rhan o'r gwaith o osod amcanion blynyddol yr Awdurdod, sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwella a Llesiant. Mae'r Cynllun amlinellu sut mae'r Awdurdod yn bwriadu gweithio â chyrff cyhoeddus eraill i fynd i'r afael â'r materion cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl. Caiff Asesiad o berfformiad yr Awdurdod ei gyhoeddi ym mis Hydref bob blwyddyn.
- Mae Polisi Rheoli Risgiau Strategol yr Awdurdod yn nodi'r broses a ddefnyddir i ganfod a rheoli'r modd mae'n agored i ansicrwydd, a allai effeithio ar gyflawni'r amcanion neu'r gweithgareddau. Caiff y polisi ei adolygu drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.
- Ar ôl i'r Grŵp Gweithredol graffu arnynt, mae'r adroddiadau perfformiad ac ariannol yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod a'i bwyllgorau.
- Mae argaeledd, digwyddiadau, y gweithlu a chyllidebau yn cael eu monitro i wneud yn siŵr fod materion yn cael eu nodi a chytuno ar ymyraethau priodol.
- Mae Cyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol ar gael ac mae fforwm dysgu weithredol yn rheoli a gweithredu unrhyw newidiadau.
- Mae llawer o waith yn digwydd mewn partneriaeth ledled Cymru i ymateb i faterion sy'n wynebu'r sector tân a materion mwy cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Mae cydweithio ag asiantaethau lluosog yn elfen bwysig o waith yr Awdurdod, gan gynnwys atal ac amddiffyn, ymateb i ddigwyddiadau, a defnyddio adnoddau.
- Mae'r prosesau ar gyfer cynllunio'r gyllideb yn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol ag amcanion, strategaethau a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae hyn yn golygu cael mewnbwn gan arweinwyr y Gwasanaeth ac Aelodau'r Awdurdod. Mae'n dangos sut bydd adnoddau'n cael eu defnyddio dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt.
- Caiff adolygiad Archwilio Cymru o gadernid corfforaethol ei ystyried fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol i sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer gwella yn cael eu hystyried yn llwyr.

## Egwyddorion Craidd

**Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion sy'n rhan ohono**

- Mae Cyfansoddiad yr Awdurdod yn amlinellu rolau aelodau etholedig a swyddogion dynodedig er mwyn gallu deall rolau ac amcanion ei gilydd. Mae'r swyddi dynodedig yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Trysorydd a'r Swyddog Monitro.
- Mae gwaith cydweithredol a gwaith mewn partneriaeth yn digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn rhan o'r Fforwm Hyfforddiant Ymchwilio i Achos Tanau Cymru gyfan. Mae hyn yn cefnogi dysgu ar y cyd ac yn hyrwyddo dull cyson ledled Cymru.
- Mae'r Strategaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Cymru gyfan 2021-2024 yn sail i'r ymrwymiad i ddysgu gydol oes ac i gymhwysedd yn y gweithle.
- Mae prosesau cynefino ar gael i Aelodau a gweithwyr cyflogedig. Mae'r rhain y cynnwys cyflwyniad i werthoedd craidd y sefydliad, y safonau ymddygiad a gofynion y swydd.
- Gwelir anghenion datblygu'r gweithwyr drwy gyfarfodydd un-i-un, goruchwyliaeth ac arfarnu. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu rhaglen arweinwyr y dyfodol i staff sydd eisoes yn gyflogedig ac y mae wedi datblygu rhaglen brentisiaeth ar gyfer arweinwyr y dyfodol, a gychwynnodd yn Ebrill 2021, ar y cyd â Choleg Llandrillo.
- Mae iechyd a lles y gweithlu yn allweddol i'r sefydliad, a rhoddir cymorth i gynnal lles corfforol a meddyliol. Gwneir hyn drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys polisïau a dogfennau cyfarwyddyd gan Adnoddau Dynol, gwaith hyblyg, y gwasanaeth iechyd galwedigaethol a rhaglen cefnogi cydweithwyr.
- Mae gan y Gwasanaeth adran hyfforddi bwrpasol, gyda fframweithiau cymhwysedd ar gyfer staff yr ochr weithredol. Rhoddir hyfforddiant drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys modiwlau e-ddysgu sy'n orfodol ar gyfer rhai pynciau, e.e. Diogelu Data.
- Mae trefniadau ar gael ar gyfer adolygiadau mewnol o gydymffurfiaeth â safonau'r Gwasanaeth a'r gofynion iechyd a diogelwch.
- Mae staff yn perthyn i gyrff proffesiynol perthnasol ac yn cyflawni'r datblygiad proffesiynol parhaus angenrheidiol.

## Egwyddorion Craidd

**Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref**

- Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, fel sy'n ofynnol dan Adran 151 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
- Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau a sefydlwyd.
- Mae'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol yn nodi'r broses ar gyfer canfod a rheoli risgiau. Mae cofrestr risgiau corfforaethol yn cael ei chynnal gan yr Adran Cynllunio Corfforaethol, ac mae'n cael ei monitro drwy gydol y flwyddyn.
- Mae adroddiadau i'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cynnwys asesiad effaith integredig i oleuo a chefnogi penderfyniadau.
- Mae trefniadau Parhad Busnes ar gael i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau i gael eu darparu drwy'r amser.
- Mae trefniadau rheoli yn sicrhau bod argymhellion ar gyfer gwella, a wneir gan yr Archwilydd Allanol, yn cael eu cytuno a'u monitro.
- Mae'r Aelodau a'r uwch reolwyr yn cael adroddiadau rheolaidd am berfformiad y gwasanaeth mewn perthynas â dangosyddion perfformiad ariannol a cherrig milltir.
- Mae gan yr Awdurdod drefniadau i gadw cofrestrau o fuddiannau personol a busnes yr Aelodau, a chofrestr o roddion a lletygarwch.
- Mae polisïau Gwrth-dwyll a Llygredd a Chwythu'r Chwiban ar gael i gadarnhau bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu mewn modd teg a thryloyw.
- Mae polisïau a threfniadau ar gael i reoli'r ffordd o ddelio â data. Y rhai yw'r Polisi Diogelu Data, y Polisi Rhyddid Gwybodaeth, y Polisi Cadw Data, a'r Polisi Diogelwch Cyfathrebu a Gwybodaeth. Mae hyfforddiant yn ategu'r polisïau hyn, ac mae modiwl e-ddysgu ar ddiogelu data yn orfodol i'r holl staff.
- Mae protocolau cadarn ar rannu gwybodaeth wedi cael eu datblygu, a chytunwyd arnynt â phartneriaid.
- Mae rheolaeth ariannol gadarn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'r newid trawsffurfiadol, yn ogystal ag yn sicrhau stiwardiaeth dda. Rhoddir yr wybodaeth ariannol ddiweddaraf ymhob cyfarfod o'r Awdurdod, ac mae adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar y wefan.
- Mae trefniadau rheoli'r Trysorlys yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan yr aelodau.
- Mae Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod yn destun craffu gan archwilwyr allanol.

## Egwyddorion Craidd

**Gweithredu arferion da o ran trylowyder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

- Mae'r Awdurdod Tân, gyda chymorth gan y Swyddog Monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli mewnol.
- Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd, ynghyd â gweddarllediadau o gyfarfodydd yr Awdurdod (pan fyddant ar gael).
- Mae adroddiadau'r Awdurdod yn dilyn fformat strwythuredig sy'n sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a chyson er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau.
- Mae gan yr Awdurdod gynllun cyhoeddi, ac mae'n cydymffurfio â gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth o ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, sy'n sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gwybodaeth sydd ganddo.
- Mae'r dogfennau Gwella a Llesiant yn nodi amcanion yr Awdurdod.
- Adolygwyd y Datganiad Blynyddol o Gyfrif i wneud yn siŵr ei fod mewn fformat haws i'r defnyddiwr. Mae'n darparu gwybodaeth glir am incwm a gwariant, ac mae'n dangos bod stiwardio arian cyhoeddus wedi digwydd yn y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau statudol, sef 31 Mai.
- Mae'r Datganiad Blynyddol ar Bolisi Tâl yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Mae cyflogau'r aelodau yn cael eu talu yn unol ag argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac yn cael eu hadrodd ar y rhyngrwyd.
- Mae'r aelodau a'r uwch swyddogion yn datgan buddiannau perthnasol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r Awdurdod i ganfod trafodion partïon cysylltiedig, ac i adrodd yn eu cylch.
- Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyhoeddi i roi tryloywder ynghylch y trefniadau llywodraethu a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Swyddfa Archwilio Cymru yw'r archwilydd allanol a benodwyd, ac mae'n darparu barn ar y Datganiad o Gyfrifon sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail argymhellion a, phan fo angen, mae'n cymryd camau i gywiro pethau.
- Mae'r trefniadau Archwilio Mewnol yn cynnwys dull sy'n seiliedig ar risg, sy'n darparu sicrwydd fod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli. Mae'r Awdurdod yn gweithredu ar sail argymhellion a, phan fo angen, mae'n cymryd camau i gywiro pethau.
- Mae prosesau ar gael i sicrhau bod argymhellion gan gyrff archwilio a rheoleiddio yn cael eu gweithredu.
- Ceir crynodeb ar dudalen 5 o adolygiad Archwilio Cymru o gadernid corfforaethol, a chaiff ei ystyried fel rhan o'r cylch cynllunio blynyddol I sicrhau bod cyfleoedd i

## Sut mae'r Awdurdod wedi Delio â Chamau Gweithredu Llywodraethu 2020/21?

Roedd yr Asesiad Llywodraethu a Gwella Blynyddol 2021/22 yn cynnwys y camau gwella canlynol. Dyma sut yr ymdriniwyd â nhw:

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Caiff y Rheoliadau Ariannol eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod Tân ac Achub, gan gynnwys asesiad o'r trefniadau i gyflawni egwyddorion Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Pennaeth Cyllid | Cafodd y Rheoliadau Ariannol eu diweddaru yn ystod 2021/22, a chael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Archwilio |
| Yr Adran TGCh yn parhau â cham gweithredu 2020/2021 ynghylch Cyber Essentials Plus i warchod rhag bygythiadau seiber. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr yr Ystafell Reoli a TGCh | Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bygythiad gan droseddwyr seiber wedi cynyddu. Mae'r adra TGCh, drwy weithio yn unol â chanllawiau'r Ganolfan Seiber-ddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn GCHQ, wedi cymryd pob mesur posibl i ddiogelu'r sefydliad. Mae'r bygythiad yn newid yn gyson, ac rydym yn wyliadwrus o sicrhau amddiffyniad parhaus. O fewn TGCh, mae Tim Amddiffyn Seiber-ddiogelwch sy'n cwrdd yn rheolaidd i gynllunio strategaeth ac amddiffyn rhag bygythiadau. Rydym hefyd yn mynychu cyfarfodydd gyda WARP (*Warning, Advice and Reporting Point*) sy'n rhan o'r NCSC. Rydym mewn cysylltiad ag arbenigwyr ar seiber-ddiogelwch (SEP2) i ddylunio Cynllun Ymateb i Ddigwyddiadau. Bob mis, rydym yn defnyddio cynnyrch o'r enw NESSUS i sganio ein rhwydwaith am fannau agored i berygl er mwyn ymyrryd i wella diogeled. |

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Yn dilyn y datganiadau polisi ynni ac amgylcheddol a fabwysiadwyd o'r blaen, bydd y Gweithgor Cynllunio yn ystyried strategaeth amgylcheddol newydd. | PSC (Cynllunio a Pherfformiad)<br>Rheolwr Cynllunio Corfforaethol | O ganlyniad i effaith COVID-19 nid oedd modd cynnal gweithgorau cynllunio anffurfiol felly cafwyd cynnydd arafach na'r disgwyl. Ond erbyn hyn rhoddwyd bywyd newydd yn y gwaith er mwyn recriwtio Rheolwr Newid yn yr Hinsawdd a datblygu strategaeth amgylcheddol gadarn. |
| Cefnogi'r ymateb rhanbarthol a chenedlaethol i ddigwyddiad Grenfell, a gweithredu unrhyw newidiadau gweithdrefnol a fydd yn deillio o'r arolwg annibynnol. | PSTC (Diogelwch Tân)<br>Uwch Reolwr Diogelwch Tân | Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio i wella diogelwch Adeiladau Preswyl Uchel (HRRB). Ar lefel leol, mae hyn yn golygu parhau i archwilio adeiladau preswyl a darparu cymorth i Bersonau Cyfrifol er mwyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion diogelwch tân cyfredol. Yn genedlaethol, rydym y gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi mentrau a newidiadau yn y gyfraith y maent yn eu gwneud er mwyn gwneud eiddo preswyl yn fwy diogel. Mae hyn yn cynnwys creu Tîm Archwilio ar y Cyd, sy'n cynghori a chyfrannu at y cynllun cywiro sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru a gweithio i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn addas i'r diben.<br>Ar lefel y DU, rydym yn rhan o grŵp o weithwyr proffesiynol diogelwch tân Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân. Mae hyn yn ein galluogi i ddylanwadu ar syniadaeth y DU gyfan ynghylch diogelwch tân. Ymgynghorwyd â ni hefyd ar newidiadau arfaethedig i gyfraith diogelwch tân yn y DU.<br>Mae'r holl weithredu o gam 1 o'r Ymchwiliad i Dŵr Grenfell wedi cael ei gwblhau, ac rydym yn parhau i ddilyn ac aros am ganlyniad cam 2 o'r ymchwiliad. |

| Cam Gwella | Cyfrifoldeb | Cynnydd ym Mai 2022 |
|---|---|---|
| Sicrhau bod yr argymhellion o'r adroddiad mewnol ar yr ymateb i Covid-19 yn symud ymlaen yn ystod 2021/22. | PSTC (Gweithrediadau a Hyfforddi)<br>Uwch Reolwr Gweithrediadau a Hyfforddi | Gwnaed cynnydd mewn perthynas â phob un o'r 20 argymhelliad, ac mae'r rhan fwyaf wedi cael eu cwblhau'n llwyr a rhai eraill yn symud i broses busnes fel arfer a fydd yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau nawr ac yn y dyfodol. I ddiben monitro, ystyrir bod y camau gweithredu o'r adroddiad Dysgu o COVID yn gyflawn. |
| Cwblhau'r holl gamau gweithredu a'r gofynion sy'n deillio o gyngor a gafwyd gan y llywodraeth a Bwrdd Cynghori'r Cynllun ar gyfer Cymru ac a ddiweddarwyd. | PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>Rheolwr Pensiynau | Mae'r Awdurdod yn parhau i baratoi ar gyfer gweithredu cynigion rhwymedi'r Llywodraeth yn dilyn Dyfarniad McCloud. Mae'r broses ddeddfwriaethol yn mynd yn ei blaen a disgwylir ei roi ar waith erbyn mis Hydref 2023. Rhoddwyd adroddiadau diweddaru i'r Awdurdod Tân ac Achub a chafodd y mater ei drafod ymhob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol. |

## Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu 2022/23

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 2022/23. Caiff cynnydd yn ystod y flwyddyn ei adrodd i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth drwy'r fforymau a ddangosir.

| Maes Gwella | Cam Gweithredu Arfaethedig | Fforwm | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Seiber-ddiogelwch | Cam gweithredu drwy'r Adran TGCh i baratoi ar gyfer cael ardystiad Cyber Essentials Plus i helpu i ddiogelu rhag bygythiadau seiber-ddiogelwch i'r sefydliad. | Grŵp Llywio Gwybodaeth | Pennaeth TGCh, Yr Ystafell Reoli a'r Adran Ganol<br>Pennaeth TGCh | Mawrth 2023 |
| Ailstrwythuro'r Gwasanaeth (cyflwynwyd ar 1af Ebrill 2022) | Cam gweithredu drwy'r Adrannau Cyllid a Chynllunio Corfforaethol i wirio a chadarnhau bod y dull cynllunio integredig yn parhau'n briodol ac effeithiol. | | Pennaeth Cyllid<br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Medi 2022 |
| | Cam gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i dreialu Fframwaith Sicrwydd a Blociau Adeiladu'r Gwasanaeth a ddatblygwyd yn ddiweddar; a'u diwygio os oes angen. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | DBST | Mawrth 2023 |
| | Cam gweithredu drwy Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth i ddylunio proses flynyddol sy'n cynnwys y Tîm ac Archwilio Mewnol i asesu i ba raddau y mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Da yn cael eu dilyn. | Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth | PSC<br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Rhagfyr 2022 |

| Maes Gwella | Cam Gweithredu Arfaethedig | Fforwm | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Amgylcheddol | Cam gweithredu drwy Weithgor Cynllunio'r ATA i ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol newydd | Pwyllgor Sicrhau Adnoddau Sefydliadol<br>Grŵp yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd<br>Gweithgor Cynllunio (ATA) | Pennaeth Gweithrediadau ac Ardal y Dwyrain<br>Pennaeth Cynaliadwyedd<br>Pennaeth Cynllunio Corfforaethol | Mawrth 2023 |
| Archwilio Mewnol | Adolygu'r contract ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n effeithiol wrth ddarparu sicrwydd ynghylch y trefniadau llywodraethu a bod argymhellion yn cael eu gweithredu. | | PSTC (Cyllid ac Adnoddau) | Rhagfyr 2022 |
| Datblygu Aelodau'r ATA | Gan weithio gyda'r ATA, dylunio rhaglen fwy strwythuredig o Ddatblygu Aelodau i roi cymorth i'r Aelodau fod yn effeithiol wrth gyflawni eu swyddi arwain a llywodraethu ar yr Awdurdod. | | PSC<br>Clerc yr ATA<br>Pennaeth Hyfforddi a Datblygu | Rhagfyr 2022 |

| Maes Gwella | Cam Gweithredu Arfaethedig | Fforwm | Cyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Cyfansoddiad | Cam gweithredu i Glerc yr ATA ymgorfffori trefniadau yn y Cyfansoddiad ar gyfer cyfnodau cyn etholiad a chyfnodau saib rhwng Awdurdodau. | | Clerc yr Awdurdod Tân ac Achub. | Mawrth 2023 |

## Barn a Chasgliad Llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod llywodraethiant da yn darparu sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion rhanddeiliaid ac sy'n sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau'r systemau llywodraethu a'r gwaith monitro sy'n bodoli ar gyfer 2021/22 a'r camau a gymerir i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Awdurdod wedi'i fodloni bod trefniadau llywodraethu priodol ar gael, ac mae'n parhau wedi ymrwymo i wella'r rhain drwy roi cynllun gweithredu 2022/23 ar waith.

**Llofnodwyd: ......................................... (Cadeirydd) ..................................................2022**

**Llofnodwyd: .......................................(Prif Swyddog Tân) ............................................. 2022**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Bwrdd Pensiwn Lleol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân – Adroddiad Blynyddol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol i aelodau'r Awdurdod. Mae'n nodi gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r adroddiad blynyddol ar gael yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol yn nodi'r gwaith a gafodd ei wneud gan y bwrdd yn ystod 2021/22, ac mae'n darparu rhaglen waith ar gyfer 2022/23.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol 2021/22, i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

**SYLWADAU'R BWRDD PENSIWN LLEOL**

4 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei ystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ar 15 Mawrth 2022, a gwnaethpwyd argymhelliad i'w gymeradwyo.

**CEFNDIR**

5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Yr Awdurdod yw'r Rheolwr Cynllun fel y diffinnir o dan Adran 4 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i sefydlu yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf honno.

**GWYBODAETH**

6 Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ynghylch pensiynau eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer trefniadau llywodraethu mwy eglur, gyda rolau penodol wedi'u diffinio, cyhoeddi mwy o wybodaeth yn gyson, ac arferion gweinyddu sy'n cyd-fynd â'r rhai yn y sector preifat.

7 Roedd Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, yn ymwneud â chreu a mynd ati i weithredu pensiynau lleol wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân erbyn 1 Ebrill 2015.

8 Rôl a chylch gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r Awdurdod yn ei waith fel Rheolwr Cynllun drwy wneud yn siŵr ei fod yn gweinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn effeithiol ac yn effeithlon, a'i fod yn cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol. Er mwyn cynorthwyo gyda mater trylowyder, rhaid i'r Rheolwr Cynllun gyhoeddi adroddiad blynyddol am ei Fwrdd Pensiwn Lleol.

9 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol (atodiad 2), dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol, a rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod;
- manylion meysydd pryder a adroddwyd i'r Bwrdd, neu a godwyd gan y Bwrdd, ynghyd â'r argymhellion a wnaed;
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi codi i aelodau unigol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda'r Rheolwr Cynllun;
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, ac anghenion hyfforddi a nodwyd
- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol, a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a gafodd y Bwrdd Pensiwn Lleol, ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

10 Mae'r Cylch Gorchwyl cyfredol wedi'i nodi yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol. Ni chynigir unrhyw newidiadau oherwydd, yn dilyn adolygiad, ystyrir bod y rhain yn gyson â gofynion y Ddeddf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol |
| Cyllideb | Mae cost y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei ariannu o'r gyllideb gyfredol ar gyfer Gwasanaethau Aelodau |
| Cyfreithiol | Cafodd y gofynion llywodraethu newydd ar gyfer pensiynau eu cyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Rheoliadau Llywodraeth (Diwygio) Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015. |
| Staffio | Ystyrir nad ydynt yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ystyrir nad oes angen delio ag unrhyw faterion oherwydd mae'r argymhellion yr un mor berthnasol i bob Aelod ni waeth beth fo'r nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl. |

| | |
|---|---|
| Risgiau | Rhaid i bob ATA gydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Byrddau Pensiwn Lleol. |

Atodiad 1

# Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân
# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Adroddiad Blynyddol
# Bwrdd Pensiwn Lleol
# 2021/22

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| • Cynnwys | 3 |
| • Rolau a Swyddogaethau | 3 |
| • Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd | 3 |
| • Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau | 4 |
| • Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 4 |
| • Rhaglen Waith 2021/221 | 5 |
| • Rhaglen Waith 2022/23 | 7 |

## 1.0 Adroddiad Blynyddol

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwebaeth ar y canlynol:

- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn;
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd, a'r anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn;
- crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2021/22;
- meysydd pryder neu risg a adroddwyd neu a godwyd gan y Bwrdd; ac
- y blaen-raglen waith ar gyfer 2022/23.

## 2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac Adran 30 (1) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, cafodd Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd) ei sefydlu yn Ebrill 2015. Rôl a chylch gorchwyl y Bwrdd yw cynorthwyo Rheolwr y Cynllun (sef Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru) i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- Y deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a helaethu trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae wedi'i gynllunio i fod yn gyfaill beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion pan ydynt yn gweithredu fel rheolwr cynllun.

## 3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y Bwrdd yn cynnwys 10 aelod fel a ganlyn:

- Pump yn cynrychioli'r cyflogwr, sef tri o aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy a enwebir) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pump yn cynrychioli'r gweithwyr – mae pob un o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol ag Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol a ganlyn yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r
- Rheolwr Pensiynau.

Ar hyn o bryd, mae cyfnod penodiad pob aelod yn cyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwyr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd y Cynghorydd B Apsley yn Gadeirydd am y cyfnod 2019-2021 a throsglwyddwyd i'r PSTC Richard Fairhead yn y cyfarfod ym mis Ebrill. Un o gynrychiolwyr y gweithwyr yw'r PSTC Fairhead ac mae wedi'i enwebu hefyd i sefyll ar Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn ogystal.

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod cyfnod yr adroddiad blynyddol hwn.

## 4.0 Polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn mynnu nad oes gan aelod o fwrdd pensiwn fuddiannau sy'n gwrthdaro. Y diffiniad o 'wrthdaro rhwng buddiannau' yw 'buddiant ariannol neu arall sy'n debygol o beryglu'r modd y mae person yn cyflawni swyddogaethau fel aelod o fwrdd pensiwn'. Mae'r Ddeddf yn eglur nad yw bod yn aelod o un o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn golygu gwrthdaro rhwng buddiannau, felly ni fyddai hynny'n atal aelod o gynllun rhag gwasanaethau ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli achosion posibl o wrthdaro rhwng buddiannau er mwyn sicrhau nad ydynt yn troi'n achosion gwirioneddol o wrthdaro, ac mae pob aelod o'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Hefyd, mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd, ac mae unrhyw fuddiannau a nodir gan yr aelodau yn cael eu cofnodi er mwyn gallu cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Yn ystod y cyfnod perthnasol, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau gan unrhyw aelod, gan neb oedd yno i gynghori na gan neb oedd yn mynychu.

<u>Cliciwch i weld y polisi Gwrthdaro rhwng Buddiannau</u>.

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n un o ofynion statudol Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i fod yn gyfarwydd â materion manwl yn ymwneud â phensiynau, ac i ddatblygu adnabyddiaeth ohonynt, er mwyn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau a materion eraill a ragnodir mewn deddfwriaeth arall.

Dylai aelod o'r Bwrdd fod â dealltwriaeth o'r hyn sy'n briodol i'w swydd a dylai fod yn gallu canfod a herio methiant i gydymffurfio â'r canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr tân;
- Deddfwriaeth arall yn ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; neu
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Pan gaiff yr aelodau eu penodi, rhaid iddynt, o fewn chwe mis, gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau; hefyd, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant cynefino parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl.

Mae Rheolwr y Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a wneir gan aelodau unigol a gan y Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Mae hyn o gymorth i'r Awdurdod a'r aelodau ddangos eu bod yn cydymffurfio, os oes angen, â'r gofyniad cyfreithiol ac yn cofnodi sut lliniarwyd risgiau sy'n gysylltiedig â bylchau mewn gwybodaeth. Bob blwyddyn, mae'r aelodau'n llenwi ffurflen hunan-asesu ar gyfer dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth, a defnyddir y rhain i baratoi blaen-raglen hyfforddi. Mae'r gwaith o hyfforddi aelodau'r Bwrdd yn cael ei wneud yn fewnol yn bennaf, heb gost uniongyrchol; mae'r digwyddiadau cenedlaethol, megis cynhadledd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, wedi bod yn rhad ac am ddim hyd yma. Pan fo angen i aelodau'r Bwrdd deithio i fynychu digwyddiadau hyfforddi mae'r gost hon wedi'i chynnwys mewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Isod, ceir rhestr yn dangos yr hyfforddiant a gafodd aelodau'r Bwrdd yn ystod 2021/22:

| **Dyddiad** | **Pynciau** |
|---|---|
| Ebrill 2021 | Modiwlau 1 a 2 o Fodiwlau Hyfforddi'r Rheoleiddiwr Pensiynau |
| Gorffennaf 2021 | Modiwlau 3 a 4 o Fodiwlau'r Rheoleiddiwr Pensiynau |

| | |
|---|---|
| Hydref 2021 | Modiwlau 5, 6 a 7 o Fodiwlau'r Rheoleiddiwr Pensiynau |
| Mawrth 2022 | Yr wybodaeth ddiweddaraf am y rheolau lleihau yn dilyn achos yr Ombwdsmon Pensiynau |

## 6.0 Rhaglen Waith 2021/22

Mae'r Bwrdd wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, sef ar 21 Ebrill, 21 Gorffennaf, 20 Hydref a 15 Mawrth 2022.

Mae'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn wedi cael ei ddiffinio gan y Cylch Gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo ac yn adolygu'r Cylch Gorchwyl bob blwyddyn, gellir gweld y copi mwyaf diweddaraf yn atodiad 2.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, bu'r Bwrdd yn ystyried y materion penodol a ganlyn:

- adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl
- adolygu a chymeradwyo'r adroddiad Blynyddol 2020/21
- yr her gyfreithiol cenedlaethol ynglŷn â threfniadau pontio cynllun pensiwn (Dyfarniad McCloud)
- y diweddaraf ynghylch dadansoddi anghenion hyfforddi a gwybodaeth
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys y Dangosfwrdd Pensiynau a Dyfarniad Matthews.

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog a ganlyn:

- Datgan Buddiannau
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf
- Adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (gan gynnwys diweddariad deddfwriaethol)
- Adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed)
- Diweddariad Bwrdd Cynghori'r Cynllun
- Hyfforddi
- Y Gofrestr Risgiau
- Materion i'w huwchgyfeirio i'r ATA llawn.

Ers i'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol gael ei sefydlu yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi cael ei siapio gan aelodau'r Bwrdd a gan swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Datbygwyd rhai adroddiadau rheolaidd, sef:

- Adroddiad o'r enw 'Adroddiad Diweddaru am Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân', sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am feysydd arwyddocaol o ran gwaith pensiwn, ac mae'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r

bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn ennyn trafodaeth yn y Bwrdd ynghylch effaith materion ar aelodau'r Cynllun Pensiwn ac ynghylch y modd y mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn gymorth i gyflawni pwrpas y Bwrdd, sef sicrhau bod llywodraethu a gweinyddu effeithiol yn digwydd;

- Adroddiad o'r enw 'Adroddiad Diweddaru am Gronfa Bensiwn Dyfed', ei bwrpas yw rhoi sicrwydd fod y cynllun yn cael ei weinyddu'r gywir. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am reoleiddio, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion penodol yn ymwneud â llwyth gwaith, megis cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, achosion o dorri'r rheolau, a lefelau gweithgarwch yn 'Fy Mhensiynau Ar-lein';
- Mae meysydd penodol o'r Gofrestr Risgiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun, ac maent yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ymhob cyfarfod, gan dynnu sylw at unrhyw newidiadau. Mae hyn yn golygu bod y Bwrdd yn gallu cadw golwg ar y risigau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi cael eu cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Er mwyn gwella'r gwaith o weinyddu a llywodraethu'r swyddogaeth bensiynau yn effeithlon ac effeithiol, cafodd yr holl argymhellion a ganlyn eu gwneud gan y Bwrdd, ac fe'u cyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Y Gwasanaeth i fynd i'r afael a gwella'r nifer o gofrestriadau ar y cyfleuster 'Fy Mhensiwn Ar-lein';

<u>Mae mwy o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd uchod</u>.

## 7.0 Rhaglen Waith 2022/23

Dyma'r Rhaglen Waith ar gyfer 2022/23:

- Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, penodi aelodau yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol;
- Penodi cadeirydd newydd am y cyfnod 2022/23 a 2023/24;
- Darparu sesiwn gynefino a hyfforddiant cychwynnol i bob aelod;
- Gwneud dadansoddiad o anghenion hyfforddi gydag aelodau'r Bwrdd, a chytuno ar raglen hyfforddi sy'n cynnwys diweddariadau a chyflwyniadau ar faterion cyfredol yn ymwneud â phensiynau, fel y bo angen;
- Cytuno ar amserlen ar gyfer cyfarfodydd 2022/23;
- Adolygu a diweddaru'r gofrestr risgiau;
- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf i bob cyfarfod ynghylch materion rheoleiddio sydd mewn cylchlythyrau gan Lywodraeth Cymru a bwletinau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol;
- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynllun Cynghori Cynlluniau (Cymru);
- Derbyn diweddariadau gan weinyddwr y cynllun, gan gynnwys cynlluniau gwella data; a;
- Parhau i wella cofrestriadau ar *Fy Mhensiynau Ar-lein*; ac
- Cadw golwg ar achosion cyfreithiol O'Brien a Matthews.

**Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiynau Diffoddwyr Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Diwygio) (Llywodraethu) 2014.

## Rheoli'r Cynllun

2. Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel yr awdurdod gweinyddu, yw Rheolwr y Cynllun. Caiff ei swyddogaethau eu cyflawni yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod gan y Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân.

## Y Bwrdd Pensiwn Lleol

3. Rôl y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), fel yr awdurdod gweinyddu, i wneud y canlynol:

   - sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau'r cynllun a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynllun;
   - sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r cynllun;
   - sicrhau llywodraethiad effeithiol ac effeithlon i'r Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cronfa Bensiynau Dyfed;
   - goruchwylio'r materion hyn fydd rôl y Bwrdd, nid gwneud penderfyniadau;
   - cyflawni unrhyw waith perthnasol fel y gofynnir amdano;
   - mewn unrhyw faterion eraill y gallai rheoliadau'r cynllun eu pennu.

4. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd hefyd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion o ran gwybodaeth a dealltwriaeth yng Nghod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

5. Mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn atebol i'r Rheoleiddiwr Pensiynau, Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a'r Awdurdod Gweinyddu yn eu rôl fel Rheolwr y Cynllun.

6. Bydd prif swyddogaethau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

   - adolygu'r prosesau, y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau perthnasol;
   - ceisio sicrwydd bod y rhain yn cael eu dilyn ac y cedwir atynt o ran penderfyniadau ynghylch Pensiynau;
   - ceisio sicrwydd bod perfformiad o ran gweinyddu yn cydymffurfio â fframwaith perfformiad yr Awdurdod, a bod y trefniadau monitro yn ddigonol ac yn gadarn;
   - ystyried pa mor effeithiol yw'r cyfathrebu gyda'r cyflogwyr ac aelodau'r

cynlluniau, gan gynnwys adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu; ystyried a rhoi sylwadau ar argymhellion archwilio mewnol ac adroddiadau archwilwyr allanol.

7. Bydd unrhyw gŵyn neu honiad ynghylch torri'r Rheoliadau a ddygir i sylw'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu trin yn unol â'r Cod Ymarfer fel y'i cyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

**Rhybudd o Gyfarfodydd a pha mor aml y cânt eu cynnal**

8. Rhaid i'r Bwrdd Pensiwn Lleol gyfarfod yn ddigon rheolaidd er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau'n effeithiol; trefnir pedwar cyfarfod ymhob blwyddyn ariannol.

9. Bydd y Swyddog Cyswllt Aelodau yn hysbysu holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol am bob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gynnwys nodi'r dyddiad, y lleoliad ac amser y cyfarfod, a bydd yn sicrhau bod cofnod ffurfiol o drafodion y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gadw.

10. Darperir papurau o leiaf dri diwrnod gwaith cyn pob un o'r cyfarfodydd ffurfiol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

11. Bydd yr holl agendâu a phapurau a chofnodion nad ydynt yn gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar wefan GTAGC, ynghyd â Chylch Gorchwyl y Bwrdd a manylion aelodaeth y Bwrdd.

**Aelodaeth**

12. Bydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cynnwys dim llai na 6 aelod (i gyd), a rhaid iddo gynnwys cydbwysedd cyfartal o gynrychiolwyr o'r cyflogwr ac aelodau'r cynllun (gweithwyr). Bydd ei gyfansoddiad fel a ganlyn:

| Etholaeth | Diffiniad/Cyfyngiadau |
|---|---|
| Cyflogwr | Cynrychioli GTAGC |
| Aelod o'r Cynlluniau (gweithwyr) | Cynrychioli pob aelod o'r cynlluniau (gweithredol, wedi gohirio, a phensiynwr) |

13. Bydd cyfnod swydd yr holl aelodau yn cyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau ac felly disgwylir i'r aelodaeth barhau tan 2022. Caiff yr aelodau, ar ddiwedd eu cyfnod, fynegi eu dymuniad i gael eu hystyried i'w hailethol.

14. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fodloni'r gofynion pwysig o ran presenoldeb a hyfforddiant er mwyn cadw eu haelodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid i'r holl aelodau:

- ymdrechu i fod yn bresennol ymhob cyfarfod o'r Bwrdd
- gydymffurfio â'r cynllun hyfforddi a gaiff ei lunio gan y Rheolwr Pensiynau
- gydymffurfio â Chod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.

15. Bydd gan bob un Cynrychiolydd Cyflogwr a Chynrychiolydd Aelod y Cynllun yr hawl i bleidleisio yn unigol.

16. Rhaid i bob aelod o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân gael cyfle cyfartal o ran cael eu henwebu ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau.

17. I ddiben penodi cynrychiolwyr y cyflogwr ar y Bwrdd, gofynnir am enwebiadau gan holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub. Bydd y Trysorydd a'r Swyddog Monitro (neu ddirprwy) hefyd yn darparu cynrychiolaeth cyflogwr.

18. I ddiben penodi cynrychiolwyr yr aelodau cynllun (gweithwyr) ar y Bwrdd, gofynnir am enwebiadau drwy Gynrychiolwyr Adrannau a Fforwm yr Undebau Llafur, gydag enwebiadau pellach yn dod drwy hysbyseb a roddir ar wefan yr Awdurdod. Pan fo mwy na thri enwebiad yn dod i law, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hystyried, eu rhoi ar y rhestr fer a'u cyfweld gan banel penodi a fydd wedyn yn gwneud argymhellion i'r Prif Swyddog Tân gael eu penodi'n ffurfiol.

19. Os bydd aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr y cyflogwr yn gadael cyflogaeth y cyflogwr y maent yn ei gynrychioli, ni fydd mwyach yn gymwys i fod ar y Bwrdd.

20. Pan fo aelod o'r Bwrdd yn absennol yn gyson, neu'n methu â bodloni gofynion pwysig o ran presenoldeb a hyfforddi fel y nodir yn (13) uchod, bydd yr aelodaeth honno'n cael ei hadolygu. Yn achos cynrychiolydd sy'n aelod, gwneir hyn gan gynrychiolydd Rheolwr y Cynllun, a gaiff argymell bod yr aelodaeth yn cael ei dirymu os bydd yn ystyried bod angen hynny. Mewn achos o'r fath, bydd hawl i apelio i'r Prif Swyddog Tân cyn unrhyw argymhelliad. Yn achos cynrychiolydd cyflogwr, bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei ystyried gan gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub.

21. Os bydd cyflogwr neu gynrychiolydd aelodau'r cynlluniau yn dymuno ymddiswyddo rhaid iddo ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân, gan roi rhybudd o fis o leiaf.

22. Bydd Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac aelod sy'n cynrychioli aelodau'r cynlluniau.

23. Rôl y cynrychiolydd sy'n gweithredu fel Cadeirydd yw:

- cytuno ar yr agenda, a'i osod, ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd
- rheoli'r cyfarfodydd i sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gyflawni yn yr amser y cytunwyd arno
- sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn dangos y parch dyledus at y broses, a bod pob barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn llwyr
- ymdrechu cymaint ag y bo modd i gael consensws fel canlyniad
- sicrhau bod pob cam gweithredu a'r rhesymeg dros benderfyniadau yn eglur, a bod cofnod priodol ohonynt.

24. Oherwydd natur arbenigol gwaith y Bwrdd, disgwylir i holl aelodau’r Bwrdd fod yn bresennol yn bersonol, a hynny ymhob cyfarfod, heb ddarpariaeth ar gyfer dirprwy. Fodd bynnag, fe ganiateir dirprwyon; ond byddai rhaid iddynt fod yn gyfrifol am ddiweddaru eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â materion pensiwn.

25. Caiff y Bwrdd, gyda chymeradwyaeth y Prif Swyddog Tân, gyfethol personau nad ydynt yn aelodau i gynorthwyo’r Bwrdd am gyfnod neu ar gyfer tasg benodol pryd y byddai hynny’n darparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad ychwanegol. Ni fyddai caniatâd i’r aelodau cyfetholedig bleidleisio.

**Cworwm**

26. Rhaid i bedwar o blith aelodau’r Bwrdd fod yn bresennol er mwyn cael cworwm mewn cyfarfod. Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod ac y mae yno gworwm, rhaid i’r aelodau sy’n bresennol ddewis Cadeirydd i lywyddu dros y cyfarfod hwnnw.

**Gwybodaeth a Sgiliau**

27. Rhaid i aelod o’r Bwrdd Pensiwn fod yn gyfarwydd â’r canlynol:

- y ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd cysylltiedig y pedwar o Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- unrhyw bolisïau, gweithdrefnau neu brosesau gwneud penderfyniadau ynglŷn â gweinyddu’r Cynlluniau a fabwysiedir gan GTAGC a Chronfa Bensiwn Dyfed.

28. Rhaid i aelod o’r Bwrdd Pensiwn Lleol gael gwybodaeth a dealltwriaeth o’r gyfraith sy’n gysylltiedig â phensiynau ac unrhyw faterion eraill a ragnodir mewn Rheoliadau.

29. Mater i aelodau’r Bwrdd Pensiwn yw cael eu bodloni bod ganddynt y graddau priodol o wybodaeth a dealltwriaeth i’w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau’n gywir fel aelod o’r Bwrdd Pensiwn.

30. Mae’n ofynnol i aelodau’r Bwrdd Pensiwn allu dangos eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth, ac i loywi ac i gadw eu gwybodaeth yn gyfoes. Felly, mae’n ofynnol i aelodau’r Bwrdd Pensiwn gadw cofnod ysgrifenedig o hyfforddiant a datblygiad perthnasol.

31. Rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau gadarnhau i'r Rheolwr Pensiynau o fewn chwe mis ar ôl ymuno â'r Bwrdd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant Rheoleiddiwr Pensiynau.

32. Yn ystod y cyfarfod cyntaf y flwyddyn ariannol, mae'n rhaid i aelodau'r Bwrdd Pensiynau ystyried a chytuno ar raglen hyfforddi flynyddol.

**Safonau Ymddygiad a Gwrthdaro Buddiannau**

33. Mae rôl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn gofyn am y safonau uchaf o ymddygiad, ac felly bydd 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' yn berthnasol i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Bydd yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd gadw at god ymddygiad aelodau a pholisïau Diogelu Data GTAGC. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu o fewn y cylch gorchwyl hwn bob amser. Yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, rhaid i aelod o'r bwrdd beidio â chael buddiant ariannol neu fuddiant arall a allai niweidio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau ar y Bwrdd. Nid yw hyn yn cynnwys buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n codi dim ond drwy fod yn aelod o'r GTA.

34. Felly, bydd yn ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol ddatgan unrhyw fuddiannau ac unrhyw wrthdaro posib rhwng buddiannau yn unol â gofynion Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Chod y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae'r datganiadau hyn yn ofynnol fel rhan o'r broses benodi, yn ogystal ag ar adegau rheolaidd drwy gydol cyfnod aelod.

**Adrodd**

35. Disgwylir i'r Bwrdd lunio adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub, a dylai hwnnw gynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- meysydd pryder yr adroddwyd yn eu cylch i'r Bwrdd neu a godwyd gan y Bwrdd, a'r argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a gododd o ran aelodau unigol y Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y cafodd y rhain eu rheoli
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd a'r anghenion hyfforddi a ganfuwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a gafwyd gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ac unrhyw dreuliau a ragwelir yn y flwyddyn i ddod.

36. Er mai dim ond un adroddiad blynyddol y mae gofyn i'r Bwrdd ei lunio, caiff cofnodion pob cyfarfod o'r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

37. Os bydd gan y Bwrdd unrhyw bryderon y credir eu bod yn ddigon difrifol i adrodd yn eu cylch ar lefel uwch na'r hyn sy'n safonol (sef i'r Rheolwr Pensiynau), dylent adrodd yn eu cylch i'r Prif Swyddog Tân. Gallai hyn gynnwys adegau, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini, pryd y bydd y Bwrdd yn teimlo na weithredwyd ar sail argymhellion. Mewn achosion eithafol megis torri'r Rheoliadau yn sylfaenol neu fethiant sylfaenol gan yr Awdurdod Gweinyddu i sicrhau bod y gronfa'n cael ei llywodraethu'n effeithiol, gall y Bwrdd ystyried adrodd i Fwrdd Cynghori Cenedlaethol y Cynllun a/neu'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Cydnabyddiaeth Ariannol

38. Bydd cydnabyddiaeth ariannol i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael ei gyfyngu i ad-dalu'r treuliau gwirioneddol am fynychu cyfarfodydd a hyfforddiant y Bwrdd.
Disgwylir y bydd cyflogwyr aelodau'r bwrdd yn darparu gallu priodol i ganiatáu i'r aelod gyflawni'r rôl hon o fewn eu diwrnod gwaith arferol heb unrhyw ostyngiad yn eu cyflog.

39. Dylid cyflwyno hawliadau am dreuliau 1 mis fan bellaf ar ôl iddynt ddigwydd.

## Cyhoeddi Gwybodaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol

40. Rhoddir gwybodaeth gyfoes ar wefan GTAGC i ddangos y canlynol:

- enwau a gwybodaeth am aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- sut y mae aelodau'r cynllun a'r cyflogwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Pensiwn Lleol
- cyfrifoldebau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ei gyfanrwydd
- cylch gorchwyl a pholisïau llawn y Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y maent yn gweithredu
- Proses benodi'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

## Adolygu

41. Mabwysiadwyd yn ffurfiol y cylch gorchwyl hwn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Ebrill 2015, ac mae'n cael ei adolygu yn flynyddol neu os daw newidiadau statudol neu reoleiddiol yn unol â pharagraff 41.

42. Mae gan y Prif Swyddog Tân awdurdod i wneud mân newidiadau o ganlyniad i newid statudol neu reoleiddiol, neu i ddiweddaru trefniadau o ganlyniad i ffactorau allanol eraill.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith Williams (Rheolwr Archwilio)**<br>**01492 576217 Keith.williams@conwy.gov.uk** |
| Pwnc | **Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol 2021/22** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) Rhan 3 5. (2), rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) fynd ati bob blwyddyn i gynnal adolygiad o ba mor effeithiol yw ei system Rheolaeth Fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac yn rhywbeth sy'n cyfrannu'n fawr at baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

2 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus CIPFA 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl system rheolaeth fewnol, gan gynnwys pa mor ddigonol yw'r trefniadau rheoli risgiau a llywodraethu corfforaethol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2021/22, ac mae'n cynnwys y datganiad sicrwydd sy'n seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio, ar sail y gwaith archwilio mewnol a wnaed, ynghyd â'r wybodaeth sydd ganddo am y sefydliad a'i weithdrefnau, fod gan yr Awdurdod drefniadau effeithiol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol, a hynny er mwyn rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.

5 Roedd 50 diwrnod wedi'u dyrannu, ac mae'r adroddiad yn nodi bod 48 diwrnod o waith Archwilio Mewnol wedi cael eu cynnal yn ystod 2021/22. O ganlyniad i hynny, bydd 8 diwrnod yn cael eu cario drosodd i 2021/22, gan gynyddu'r dyraniad i 58 diwrnod. Bydd yr amser ychwanegol hwn yn ddefnyddiol oherwydd bod gwasanaethau ariannol, a oedd yn cael eu rheoli'n flaenorol gan Gonwy, yn dod yn ôl yn fewnol o fis Ebrill 2022.

6 Mae'r adolygiadau archwilio yn darparu lefel gadarnhaol o sicrwydd ynghylch pa mor ddigonol yw'r systemau rheolaeth fewnol sy'n bodoli, er bod 14 o argymhellion wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â rhai gwendidau. Mae proses ddilynol ffurfiol yn bodoli i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

7 Nid yw'r gwaith Archwilio Mewnol wedi canfod unrhyw wendidau a fyddai'n lleihau'r farn hon, ac nid oes unrhyw faterion arwyddocaol yn berthnasol i'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

8 Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd hefyd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig er mwyn galluogi'r Awdurdod i gael sicrwydd o'r farn hon.

## ARGYMHELLION

9 Dylai'r Pwyllgor nodi'r hyn sydd yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael, a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau, a rheolaeth.

## CEFNDIR

### Swyddogaeth Archwilio Mewnol

10 Dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol."

11 Swyddogaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i'r rheolwyr ynghylch p'un ai yw'r systemau a'r rheolaethau'n gweithio'n iawn ai peidio. Mae'n rhan allweddol o system rheolaeth fewnol y sefydliad oherwydd ei fod yn mesur ac yn gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau eraill, fel:

- Bod Pwyllgor Archwilio a'r uwch reolwyr yn ymwybodol i ba raddau y gallant ddibynnu ar yr holl system; a
- Bod rheolwyr unigol yn ymwybodol o ba mor ddibynadwy yw'r systemau a'r rheolaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

12 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys yr holl rwydwaith o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei amcanion eu cyflawni. Mae'n cynnwys rheolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a hefyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr Awdurdod yn cael gwerth am arian o'i weithgareddau.

13 Yn unol â Safonau Archwilio'r Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol bob blwyddyn, i'w defnyddio gan yr Awdurdod ar gyfer ei ddatganiad llywodraethu.

**GWYBODAETH**

**Barn Archwilio Mewnol 2021/22**

14 Rwy'n fodlon fod y gwaith archwilio mewnol a gyflawnwyd, ynghyd â'n gwybodaeth gynaledig o'r sefydliad a'i weithdrefnau, yn caniatáu i mi ddod i gasgliad rhesymol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn ATAGC.

15 Yn fy nhyb i, am y 12 mis a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain Mawrth 2022, mae gan ATAGC brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol ar gyfer rheoli'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

16 Wrth roi barn archwilio, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn absoliwt. Y peth mwyaf y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yw sicrwydd rhesymol, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn honno, nad oes unrhyw wendidau mawr heblaw'r rhai a nodwyd.

17 Hefyd, wrth gyrraedd y farn hon, rydym wedi ystyried y canlynol:

- Canlyniadau'r holl archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022;
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol;
- A oes unrhyw argymhellion o'r categorïau Critigol neu Fawr heb gael eu derbyn gan y rheolwyr, a beth yw'r risgiau oherwydd hynny;
- Effeithiau unrhyw newidiadau sylweddol yn amcanion neu weithgareddau'r Awdurdod;
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Panel Gweithredol neu'r Pwyllgor Archwilio; a'r
- Cyfyngiadau o ran adnoddau sydd ar y gwaith Archwilio Mewnol ac sydd wedi amharu ar allu'r Gwasanaeth i ddiwallu holl anghenion archwilio mewnol yr Awdurdod.

18 Gellir defnyddio'r farn archwilio gyffredinol wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Crynodeb o'r Gwaith i Gefnogi Barn Archwilio 2021/22**

19 Mae'r rhestr yn **Atodiad A** yn rhoi barn archwilio ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol, ac mae'n rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol o ran yr holl aseiniadau archwilio a gafodd eu cynnal yn ystod 2021/22.

20 Mae'r rhestr yn rhoi crynodeb o'r gwaith a barnau archwilio a nifer yr argymhellion a wnaed mewn perthynas â phob maes a adolygwyd, sy'n sail i'r sicrwydd a roddir i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol oedd fframweithiau'r Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn 2021/22.

21 Pan fo hynny'n berthnasol, mae'r adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu categoreiddio i roi barn archwilio ynghylch yr amgylchedd rheolaeth fewnol ar gyfer y system neu'r sefydliad dan sylw. Dyma'r categorïau ar gyfer barnau archwilio ynghylch yr aseiniadau:

- Sicrwydd Uchel
- Sicrwydd Boddhaol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Dim Sicrwydd

I gefnogi'r barnau archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cael eu categoreiddio fel rhai Critigol, Mawr, Canolig a Mân, a hynny yn unol â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn asesu ac yn mesur risg.

22 O ganlyniad i bandemig Covid-19 ac i ymateb i gyngor y llywodraeth a chyfyngiadau, fe wnaeth Archwilio Mewnol roi'r gorau i'w holl waith ar y safle, bu'r staff yn gweithio o gartref gan barhau i wneud cynnydd, tra'n gweithio ac yn ymgysylltu â chleientiaid o bell. Fe wnaeth Archwilio Mewnol geisio sicrhau nad oedd y gwaith archwilio yn cael effaith niweidiol ar gleientiaid ar adeg pan oedd Gwasanaethau wedi cael eu gorymestyn ac yn canolbwyntio ar ddelio â COVID-19. Cafodd dau adroddiad archwilio, archwiliad arbennig a gwaith ymgynghorol eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, a hynny ynglŷn â'r canlynol:

- **Gyrru Peiriant Tân Argyfwng (EFAD)** – Cynhaliwyd adolygiad i ddarparu lefel o sicrwydd i'r rheolwyr fod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, bod y risgiau posibl yn cael eu rheoli'n dda a bod amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni. Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r canlynol:
  - Polisïau a Gweithdrefnau
  - Hyfforddi a Datblygu
  - Ffitrwydd ac Archwiliadau Meddygol
  - Gwiriadau Trwyddedau Gyrru

- Damweiniau Gyrru a Damweiniau a fu bron â digwydd
- Troseddau Gyrru a Chosbau ar Drwyddedau
- Cwynion am Yrru
- Yswiriant Gyrrwr, Cerbyd a Thrydydd Parti

  Roedd yr archwiliad wedi gwneud argymhellion ac wedi darparu lefel *Foddhaol* o sicrwydd.

- **Menter Twyll Genedlaethol –** Mae'r fenter yn ymarferiad 'paru data' cynhwysfawr a thrylwyr a drefnir gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth ag Archwilio Cymru. Ei nod yw atal gwallau mewn taliadau a thwyll ariannol rhag digwydd yn erbyn awdurdodau lleol, y GIG, yr Heddluoedd ac Awdurdodau Tân ac ac ati, canfod unrhyw ordaliadau i'w hadennill, a chymryd camau yn erbyn troseddwyr. Mae'r ymarferiad wedi canfod 313 o achosion o baru data, ac archwilwyd ac adolygwyd yr achosion mewn perthynas â'u blaenoriaeth. Mae canlyniadau'r ymarferiad yn darparu lefel *Uchel* o sicrwydd fod systemau'r gyflogres a chredydwyr yn cael eu rheoli'n dda, sy'n lleihau'r risg o dwyll ariannol ac anghysonderau.

- **Ymchwiliad Arbennig – Negeseuon E-bost Sgamiau 'Gwe-rwydo' Credydwyr –** Roedd ymgais i dwyllo credwyr drwy ddefnyddio negeseuon e-bost sgamiau 'gwe-rwydo' i geisio cael y Gwasanaeth i wneud taliad, a oedd mewn gwirionedd yn ddyledus i blymer lleol, i gyfrif banc twyllodrus. Roedd e-byst a/neu gyfrifiadur y plymer wedi cael eu peryglu ac roedd negeseuon e-bost wedi cael eu rhyng-gipio wrth gael eu derbyn (yn hytrach nag wedi cael eu rhyng-gipio wrth eu trosglwyddo). Cydymffurfiwyd â gweithdrefnau rheolaeth fewnol Conwy, a llwyddwyd i atal yr ymgais i dwyllo. Argymhellwyd nifer o gamau gweithredu i'r cwmni plymer er mwyn gwella diogelwch eu system e-bost, a rhoddwyd gwybod am y twyll i *Action Fraud*, sef canolfan adrodd genedlaethol y DU ar gyfer twyll ariannol a seiber-droseddau.

23 Mae canlyniad yr archwiliad, a'r gwerthusiad o ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheolaeth fewnol, yn seiliedig ar nifer yr argymhellion a wnaed, ynghyd â'u graddfa o risg. Mae pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n darparu lefel gadarnhaol o sicrwydd.

24 Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a ganfuwyd yn ystod adolygiadau'r archwiliad, gwnaethpwyd 8 o argymhellion. Cafodd cynlluniau gweithredu yn nodi'r ymatebion y cytunwyd arnynt i argymhellion yr archwiliad eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliad, a dychwelwyd y rhain i reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, wedi'u cwblhau gyda'r camau i'w cymryd i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae'r rheolwyr wedi cytuno i weithredu'r holl argymhellion yn yr archwiliad.

25 I gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer y Sector Cyhoeddus, mae proses ddilynol ffurfiol ar waith yn yr Adran i gadarnhau bod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu rhoi ar waith gan y rheolwyr o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Fel arfer, bydd archwiliad dilynol yn cael ei gynnal chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

26 Mae rhestr o'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2021/22 wedi'i hatodi yn **Atodiad B**. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a gafodd eu derbyn ac a roddwyd ar waith yn dilyn hynny gan y rheolwyr ymhob maes, ac mae'n datgelu'r newidiadau sy'n effeithio ar y farn archwilio wreiddiol. Mae'n amlwg fod gwelliant sylweddol wedi bod yn y lefelau rheolaeth fewnol o ran yr archwiliadau o'r Gyflogres (Dechreuwyr ac Ymadawyr) a'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd yn 2020/21, gyda'r ddau yn derbyn *Uchel* fel barn archwilio ddiwygiedig.

27 Cynhaliwyd 44 o ddiwrnodau archwilio yn ystod 2021/22, a hynny o gymharu â'r dyraniad a gynlluniwyd, sef 52 o ddiwrnodau fel y nodir yn y cynllun archwilio blynyddol. Mae crynodeb o'r gweithgarwch archwilio wedi'i atodi yn **Atodiad C**, ac mae'n dangos y dyraniad o adnoddau archwilio a gynlluniwyd o ran diwrnodau dynol mewn perthynas ag adrannau a gwasanaethau, ac mae'n cymharu'r cynllun gyda'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn 2021/22. O ganlyniad, bydd 8 diwrnod yn cael eu cario drosodd i 2022/23, gan gynyddu'r dyraniad i 58 diwrnod.

.

28 Yn unol â Safonau Archwilio'r Sector Cyhoeddus, mae angen i'r cynllun fod yn hyblyg er mwyn gallu adlewyrchu ac ymateb i'r newid yn risgiau a blaenoriaethau'r Awdurdod. Cafodd y cynllun ei adolygu yn ystod y flwyddyn, a'i ddiweddaru fel yr oedd angen. Cafwyd oedi yn yr archwiliadau o'r Gyflogres a'r Storfeydd Canolog oherwydd y ffaith fod gwasanaethau ariannol, a oedd yn arfer cael eu rheoli gan Gonwy, yn dod yn ôl yn fewnol o fis Ebrill 2022 ymlaen a bydd angen rhagor o waith archwilio yn 2022/23.

**Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

29 Mae'r gwaith Archwilio Mewnol yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risgiau o benderfynu ynghylch anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn, ac mae'n defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar risgiau wrth gynllunio a chynnal ein haseiniadau archwilio. Mae gwaith y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cael ei gyflawni yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig 2017.

30 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi datblygu Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIP), sy'n ymdrin â phob agwedd ar waith archwilio mewnol, ac mae'n galluogi'r gwaith o werthuso cydymffurfiaeth â phob agwedd ar Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (QAIP).

31 Daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) i rym ar 1af Ebrill 2013 ac roeddent yn cyflwyno gofyniad i gynnal asesiad allanol o'r holl wasanaethau archwilio mewnol. Rhaid cynnal yr asesiad hwnnw bob pum mlynedd, o leiaf, a hynny adolygydd cymwys ac annibynnol o'r tu allan i'r sefydliad. Y Rheolwr Gwasanaethau – Archwilio a Thechnegol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wnaeth gynnal yr asesiad ym mis Tachwedd 2016. Barn gyffredinol yr aseswyr allanol yw bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio ar y cyfan â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Cod Moeseg ymhob maes arwyddocaol, a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol. Cynhelir yr asesiad allanol nesaf ym mis Mehefin 2022.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod, sef 'Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn fforddiadwy ac wedi'i hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys allu parhau i fod ar gael pan a ble mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn cael eu darparu fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac o fewn cyfyngiadau'r gyllideb. |
| Cyfreithiol | Amherthnasol. |
| Staffio | Amherthnasol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amherthnasol. |
| Risgiau | Caiff y Datganiad Sicrwydd ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr Awdurdod, a beth yw ei allu, yn gysylltiedig â hynny, i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau o bwys a ganfuwyd gan y gwaith Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** **ATODIAD A**

**Gwasanaethau Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Negeseuon Allweddol ac Argymhellion 2021/22**

| | Maes Archwiliadwy | Negeseuon Allweddol ac Argymhellion ar gyfer Gwella | Critigol | Pwysig | Canolig | Mân | Cyfanswm | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Gyrru Cerbydau Tân mewn Argyfwng (EFAD)** | Cynhaliwyd adolygiad o Yrru Cerbydau Tân mewn Argyfwng (EFAD) i ddarparu lefel o sicrwydd i'r rheolwyr fod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol, fod y risgiau posibl yn cael eu rheoli a bod yr amcanion corfforaethol yn cael eu cyflawni.<br>Roedd yr archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r canlynol:<br>• Polisïau a Gweithdrefnau<br>• Hyfforddi a Datblygu<br>• Ffitrwydd ac Archwiliadau Meddygol<br>• Gwirio Trwyddedau Gyrru<br>• Damweiniau Gyrru a Damweiniau a fu bron â digwydd<br>• Troseddau Gyrru a Chosbau ar Drwyddedau<br>• Cwynion am Yrru<br>• Yswiriant Gyrwyr, Cerbydau a Thrydydd Partïon<br>Dyma'r argymhellion a wnaed i wella lefelau'r rheolaeth fewnol:<br>1. Dylai'r Gwasanaeth sicrhau bod y Polisi Rheoli Risg Ffordd Weithredol (MORR) yn cael ei adolygu, ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddol.<br>2. Dylai'r Safonau Gyrru a Defnyddio Cerbydau'r Gwasanaeth (SAPPO Adran 6 Rheol 12) ac Ymateb i Alwadau Tân (SAPPO Adran 5 Rheol 16) gael eu hadolygu a dylai'r polisïau diweddaredig gael eu cymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddol.<br>3. Mae angen adolygu a diweddaru'r Asesiadau Risg Generig sy'n nodi'r peryglon a'r risgiau sy'n debygol o'n hwynebu wrth fynd at ddigwyddiadau gweithredol.<br>4. Pan fo gyrwyr yn pasio'r cwrs LGV, naill ai drwy'r Adran Hyfforddi a Datblygu neu'n breifat ac yn dod yn ddeiliaid trwydded LGV cymwys, dylid cofnodi hyn ar iTrent. | **0** | **0** | **7** | **1** | **8** | **Boddhaol** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 5. Dylid gwneud cofnod o yrru yng ngolau dydd a'r tywyllwch yn pdrPRO er mwyn sicrhau bod cofnod canolog o brofiad o yrru, a gallai hyfforddwyr wirio hyn cyn y cwrs EFAD.<br>6. Dylai EFAD gwblhau'r rhaglen ddatblygu Gweithredwr Pwmp Ymarferol, cyn bod ar gael i yrru at ddigwyddiadau brys, a chofnodi bod y rhaglen wedi'i chwblhau ar pdrPRO a/neu iTrent.<br>7. Rhaid cofnodi Hyfforddiant ac Ailasesiadau Gyrru Ymateb Swyddogion yn iTrent er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trefnu'n briodol bob 3 blynedd.<br>8. a) Rhaid cwblhau Llawlyfr Defnyddwyr Gwiriadau Trwyddedau Gyrru DVLA er mwyn darparu arweiniad i'r Rheolwyr Llinell.<br>b) Rhaid i Reolwyr Llinell fewnbynnu'r gwiriadau trwyddedau gyrru ar pdrPro fel bod cofnod canolog o wiriadau trwyddedau gyrru. | | | | | | |
| 2 | **Y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll (NFI)** | Caiff NFI ei threfnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth ag Archwilio Cymru ac mae'n rhan o'r rhaglen waith a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ei nod yw canfod gwallau mewn taliadau a thwyll ariannol a'u hatal rhag digwydd yn erbyn awdurdodau lleol, y GIG, Heddlu ac Awdurdodau Tân ac ati, a chanfod unrhyw ordaliadau i'w hadfer a chymryd camau priodol yn erbyn troseddwyr. Caiff ei chynnal bob yn ail flwyddyn, ac mae wedi sefydlu ei hun yn rhan annatod o'r broses archwilio allanol a'r fframwaith llywodraethu yn ehangach.<br><br>Mae'r NFI yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr i 'baru data'; cafodd y data a oedd ei angen ar gyfer 2020/21 mewn perthynas â'r Gyflogres a Thaliadau Credydwyr eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ran ATAGC, a'u cyflwyno drwy gyfleuster cyflwyno data electronig i wefan ddiogel. Cânt eu mewnbynnu i gronfa ddata ganolog Swyddfa'r Cabinet, sydd wedi cael ei dylunio i baru eitemau data er mwyn canfod twyll posibl neu anghysonderau eraill.<br><br>Amcanion yr archwiliad oedd adolygu canlyniad yr ymarferiad paru data i ganfod unrhyw wallau neu dwyll, ac i roi sylwadau ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau mewnol sydd ar waith mewn perthynas â thaliadau Credydwyr a'r Gyflogres. Edrychwyd ar drafodion a oedd wedi digwydd o fewn blwyddyn ariannol 2020/21, ac adolygwyd achosion mewn perthynas â'u blaenoriaeth, yna dewiswyd sampl o achosion ymhob categori ar sail feirniadol ar gyfer eu harchwilio ymhellach. | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Amh.** | **Uchel** |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
Ceir crynodeb isod o’r paru data a nifer y cofnodion dyblyg:
<table>
<tr><th>Math o Baru Data</th><th>Nifer y Cofnodion Dyblyg</th></tr>
<tr><td>Cyflogres i Gyflogres</td><td>48</td></tr>
<tr><td>Cyflogres i Gyflogres – Rhif Ffôn</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Credydwyr Dyblyg yn ôl Cyfeirnod Credydwyr</td><td>17</td></tr>
<tr><td>Credydwr Dyblyg yn ôl Enw Credydwr</td><td>32</td></tr>
<tr><td>Credydwr Dyblyg yn ôl Manylion Cyfeiriad</td><td>14</td></tr>
<tr><td>Credydwyr Dyblyg yn ôl Rhif Cyfrif Banc</td><td>21</td></tr>
<tr><td>Cofnodion Dyblyg yn ôl Cyfeirnod Anfoneb, Swm a Chyfeirnod Credydwr</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Cofnodion Dyblyg yn ôl Swm Anfoneb a Chyfeirnod Credydwr</td><td>166</td></tr>
<tr><td>TAW a Ordalwyd</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Cofnodion Dyblyg yn ôl Cyfeirnod a Swm ond Cyfeirnod ac Enw Gwahanol i’r Credydwr</td><td>3</td></tr>
<tr><td>Caffael – Cyflogres i Dŷ’r Cwmnïau (Cyfarwyddwr)</td><td>3</td></tr>
<tr><td></td><td>313</td></tr>
</table>
Mae profion archwilio yn darparu lefel o sicrwydd fod systemau’r gyflogres a chredydwyr yn cael eu rheoli’n dda, gan leihau’r risg o dwyll ac anghysonderau. Mae’r 67 o achosion o baru credydwyr yn ôl enw, manylion cyfeiriad a rhif cyfrif banc wedi cael eu cyflwyno i’r Adran Gredydwyr i’w harchwilio ymhellach, gan arwain at wneud 37 o gyfeirnodau credydwyr yn anweithredol.
Mae ymarferiad yr NFI yn darparu manteision anariannol eraill drwy helpu i gryfhau’r trefniadau gwrth-dwyll a llygredd a sefydlu diwylliant gwrth-dwyll.
</td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>3</td>
<td>Ymchwiliad Arbennig - Negeseuon E-bost ‘Gwe-rwydo’ sgâm</td>
<td>
Ym mis Rhagfyr 2021, roedd ymgais twyll credydwyr drwy ddefnyddio negeseuon ‘gwe-rwydo’ sgâm. Daeth e-bost sgâm gan gwmni plymer lleol, gyda 4 o anfonebau cyfreithlon wedi’u hatodi, yn werth cyfanswm o £1,206.27 am waith plymer yng Ngorsafoedd Tân Glannau Dyfrdwy, Caergybi a Wrecsam. Yn ogystal ag anfonebau, roedd yr anfonebau ar bapur pennawd y cwmni yn gofyn am newid manylion cyfrif banc y cwmni i gyfrif banc y twyllwr.
Mae rheolaeth fewnol ar gael, sy’n gofyn i swyddogion credydwyr ffonio a siarad â chynrychiolydd o’r cwmni cyn newid y manylion banc. Ni ellid cysylltu â’r Cwmni ar
</td>
<td>Amh.</td>
<td>Amh.</td>
<td>Amh.</td>
<td>Amh.</td>
<td>Amh.</td>
<td>Amh.</td>
</tr>
</table>

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | y ffôn i wirio’r newid, ac er bod nifer o negeseuon sgâm wedi dod gan y twyllwr yn gofyn am daliad drwy BACS, penderfynwyd yn gywir i wneud taliad drwy siec ac anfon ffurflen *Newid Manylion Talu BACS* i’w llenwi. Fe wnaeth y Cwmni ddychwelyd y ffurflen a gwelwyd bod eu manylion heb newid felly dyma pryd rhoddwyd gwybod i Archwilio Mewnol. Fe wnaeth Archwilio Mewnol gysylltu â pherchennog y cwmni, a chadarnhawyd nad oedd yn gwybod am y negeseuon e-bost ac roedd yn amlwg fod y Cwmni wedi bod yn agored i droseddwr ‘gwe-rwydo’ sgâm.<br><br>Roedd negeseuon e-bost a/neu gyfrifiadur y cwmni plymer wedi eu peryglu, a’r negeseuon e-bost wedi’u rhyng-gipio wrth gyrraedd (yn hytrach na’u rhyng-gipio wrth eu trosglwyddo).<br><br>**Camau gweithredu a argymhellwyd:**<br>1. Cwmni Plymer<br>• Cafodd y cwmni plymer ei gynghori i wirio eu gohebiaeth e-bost i sicrhau nad oeddent yn cael ei defnyddio neu eu rhyng-gipio drwy dwyll.<br>• Dylid mynd ati ar unwaith i newid cyfrineiriau ar eu cyfrifon e-bost, ac unrhyw gyfrifon a rennir a/neu ar y cwmwl (yn enwedig os defnyddir yr un cyfrinair mewn mannau eraill), yn gyfrinair o safon gref a chymhleth.<br>• Dylid gwirio unrhyw ddyfais a ddefnyddir ganddynt i fynd at eu negeseuon e-bost i weld a oes maleiswedd, diweddariadau a gwrth-feirws (e.e. gwiriad iechyd). Dylid gwirio a diweddaru’n briodol unrhyw feddalwedd nad yw’n cael ei gefnogi (rhaglenni Office neu Windows).<br><br>2. Cysylltu ag Action Fraud i roi gwybod am y twyll. Dyma ganolfan adrodd genedlaethol y DU ar gyfer twyll ariannol a seiber-droseddau. Anfonwyd yr adroddiad at yr NFIB (Swyddfa Wybodaeth Genedlaethol ar gyfer Twyll Ariannol) i adolygu a pharu gyda data eraill sydd ar gael er mwyn cyfoethogi a gwirio manylion y twyll. Mae’r NFIB yn asesu a oes llinellau ymholi posibl i alluogi corff gorfodi’r gyfraith, megis yr heddlu, i ymchwilio. Y tro hwn, nid oedd modd canfod llinell ymholi i’w dilyn gan sefydliad gorfodi’r gyfraith yn y DU. | | | | | |

**ATODIAD B**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Rhestr o Archwiliadau Dilynol 2021/22**

| | Disgrifiad | Dyddiad Arch-wiliad | Dyddiad Arch-wiliad Dilynol | Nifer yr Argym-hellion | Gweith-redwyd | Ar waith / Yn rhannol | Heb ei weithredu | Ddim yn gymwys mwyach | Barn Archwilio Wreiddiol | Barn Archwilio Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Y Gyflogres (Dechreuwyr ac Ymadawyr)** | Mai 2021 | Ion. 2022 | 3 | 1 | 2 | 0 | 0 | **Boddhaol** | **UCHEL** |
| **2** | **Archwiliadau Diogel ac Iach** | Chwef. 2021 | Mawrth 2022 | 11 | 2 | 4 | 0 | 5 | **Boddhaol** | **UCHEL** |

**ATODIAD C**

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol 2021/22

| | Adran / Gwasanaeth | Diwrnodau Arfaethedig 2021/22 | Diwrnodau Gwirioneddol 2021/22 |
|---|---|---|---|
| **1** | Y Gyflogres – Taliadau a Didyniadau | **13** | **0** |
| **2** | Storfeydd Canolog | **13** | **0** |
| **3** | Y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll | **8** | **9** |
| **4** | Hyfforddi a Datblygu – Gyrru Peiriannau Tân mewn Argyfwng (EFAD) | **0** | **16.5** |
| **5** | Ymchwiliad Arbennig – Twyll Ariannol Credydwyr (Negeseuon e-bost 'Gwe-rwydo' sgamio) | **0** | **4** |
| **6** | **Archwiliadau Dilynol**:<br>• Y Gyflogres (Dechreuwyr ac Ymadawyr)<br>• Diogelwch Cymunedol – Archwiliadau Diogel ac Iach | **8** | **8.5** |
| **7** | Cynllunio ac Adroddiadau ATAGC (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol a Chynllun Strategol) | **6** | **6** |
| **8** | Cronfa Wrth Gefn | **2** | **0** |
| | **CYFANSWM Y DIWRNODAU** | **50** | **44** |

| | |
|---|---|
| **Diwrnodau a Ddyrannwyd 2021/22** | **52** |
| **Diwrnodau Gwirioneddol 2021/22** | **44** |
| **Cyfanswm y Diwrnodau a gariwyd drosodd i 2022/23** | **8** |

*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Mehefin 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2022** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno, i'r Aelodau, gynllun archwilio allanol 2022 ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel sydd yn atodiad 1.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cynllun archwilio yn nodi gwaith arfaethedig Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn ogystal â'i ffi.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

**CEFNDIR**

4 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru gyfrifoldeb statudol i ymgymryd ag archwiliad a chyflawni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio.

5 Yn y blynyddoedd a fu, ac yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r Awdurdod wedi gorfod sefydlu trefniadau ar gyfer gwneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn asesu a yw'r Awdurdod yn debygol o fodloni (neu wedi bodloni) y gofynion hyn.

6 Hefyd, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.

**GWYBODAETH**

7 Mae'r Cynllun Archwilio yn atodiad 1 yn manylu ar y gwaith bydd Archwilio Cymru yn ei wneud gan gynnwys y gwaith canlynol:

- archwilio'r datganiadau ariannol ac asesiad o b'un a yw Adroddiad Naratif yr Awdurdod a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu llunio yn unol â'r cyfarwyddyd perthnasol ai peidio;

- archwilio'r gwaith perfformiad, gan gynnwys archwilio'r cynllun gwella ac adolygiad gwerth am arian.

8 Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Awdurdod a'u manylu yn y briffiau prosiect penodol a gynhyrchir ar gyfer pob darn o waith.

9 £63,721 yw'r ffi a amcangyfrifir ac a nodir yn y cynllun archwilio. Fodd bynnag, os gwelir bod angen gwaith ychwanegol, mae'n bosibl y bydd ffi ychwanegol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Hwyluso gwasanaethau tân ac achub mwy integredig sydd o ansawdd uchel ac yn ymatebol fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, ac hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg |
| Cyllideb | £63,721 o gost, ac mae darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer hynny. |
| Cyfreithiol | Bydd y gwaith a gynigir gan Archwilio Cymru yn golygu asesiad gwrthrychol o gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth a'r codau a ganlyn.<br><br>Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004<br>Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009<br>Deddf Llywodraeth Leol 1999<br>Cod Ymarfer Archwilio<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Staffio | Amser swyddogion Tân ac Achub a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i weithio gyda Archwilio Cymru yn ystod yr archwiliadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Petai archwiliadau ariannol ddim yn cael eu cynnal, ni fyddai gwallau neu hepgoriadau yn y cyfrifon yn cael eu canfod a gallai rhanddeiliaid gael darlun camarweiniol o'r gwariant. |

# Cynllun Archwilio 2022 – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2967A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes gan hwn ei hun unrhyw swyddogaethau.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os bydd cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, phan fo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2022

Ynglŷn â’r ddogfen hon 4

Fy nyletswyddau 4

Effaith COVID-19 5

Archwilio datganiadau ariannol 5

Archwilio perfformiad 8

Swyddogaethau archwilio statudol 10

Y ffi, y tîm archwilio a’r amserlen 10

# Cynllun Archwilio 2022

## Ynglŷn â'r ddogfen hon

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gwaith rwy'n bwriadu ei wneud yn ystod 2022 i gyflawni fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Fy nyletswyddau

2 Rwy'n cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol.

### Archwilio datganiadau ariannol

3 Bob blwyddyn, rwy'n archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

### Gwerth am arian

4 Mae'n rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid i mi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.

### Gwelliant parhaus

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Awdurdod yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu a yw wedi bodloni'r gofynion hyn).

### Egwyddor datblygu cynaliadwy

6 Mae angen i'r Awdurdod gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

# Effaith COVID-19

7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddigynsail ar y Deyrnas Unedig ac ar waith sefydliadau'r sector cyhoeddus.

8 Er bod Cymru ar Lefel Rhybudd 0 y Coronafeirws ar hyn o bryd, bydd Archwilio Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn trafod goblygiadau unrhyw newidiadau yn y sefyllfa gyda'ch swyddogion.

# Archwilio datganiadau ariannol

9 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys:

- barn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' datganiadau ariannol yr Awdurdod (gan gynnwys Cyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân) ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022; ac
- asesiad ynghylch pa un a yw Adroddiad Naratif a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod wedi'u paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol a pha un a ydynt yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â fy ngwybodaeth i am yr Awdurdod.

10 Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau i archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon gan etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

11 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Bydd y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Awdurdod Tân ac Achub cyn cwblhau'r archwiliad.

12 Rwy'n barnu bod unrhyw gamddatganiadau islaw lefel fach iawn (a osodwyd ar berthnasedd o 5%) yn rhai nad yw'n ofynnol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn adrodd arnynt.

13 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

14 Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau, ynghyd â rhagor o wybodaeth am fy ngwaith.

## Risgiau i archwilio'r datganiadau ariannol

15 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r risgiau arwyddocaol yr wyf wedi'u nodi ar gyfer archwiliad yr Awdurdod.

**Arddangosyn 1: risgiau i archwilio’r datganiadau ariannol**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r risgiau allweddol i archwilio’r datganiadau ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
| --- | --- |
| **Risgiau arwyddocaol** | |
| **Rheolwyr yn Diystyru Rheolaethau**<br>Mae’r risg y gallai rheolwyr ddiystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i’r modd anrhagweladwy y gallai diystyru o’r fath ddigwydd, ystyrir bod hon yn risg arwyddocaol. | Byddwn yn:<br>• profi priodoldeb y cofnodion yn y cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw ogwydd;<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. |
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Prisio asedau**<br>Yng ngoleuni'r cyfyngiadau COVID a oedd ar waith drwy gydol 2021-22 a’r ansicrwydd ynghylch gwerthoedd y farchnad ar gyfer asedau ers dechrau'r pandemig, mae perygl y gallai gwerth cario asedau a adroddwyd yn y cyfrifon fod yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar 31 Mawrth 2022. | Bydd fy nhîm archwilio yn ceisio cadarnhau nad yw prisiadau a gynhaliwyd cyn 31 Mawrth 2022 yn sylweddol wahanol i werth presennol asedau ar ddiwedd y flwyddyn. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Dyfarniad McCloud – achosion niwed ar unwaith**<br>Mae'r Awdurdod wrthi'n adolygu effaith camau unioni Llywodraeth y DU ar gyfer dyfarniad McCloud ar fudd-daliadau pensiwn sy'n ddyledus i aelodau sydd wedi ymddeol a'r rhai sydd ar fin ymddeol.<br>Er bod rhoi cyfrif am unrhyw daliadau yn gymharol syml, mae'r Awdurdod yn ystyried goblygiadau cyfreithiol, treth ac ariannu gwneud taliadau. | Bydd fy nhîm adolygu yn archwilio'r sefyllfa ddiweddaraf yn ystod yr archwiliad ac yn cadarnhau bod unrhyw drafodiadau a gydnabuwyd, a datgeliadau a wnaed yn y datganiadau ariannol yn briodol ac yn cyd-fynd â deddfwriaeth a chanllawiau. |
| **Taliadau Cydnabyddiaeth Uwch Swyddogion**<br>Mae penodiadau i swyddi uwch swyddogion a datgeliad eu taliadau cydnabyddiaeth mewn datganiadau ariannol yn parhau i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol yn ôl eu natur.<br>Gwnaed nifer o newidiadau i'r tîm uwch swyddogion yn ystod y flwyddyn ariannol. Ceir perygl nad yw'r datganiadau hyn wedi eu datgelu yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu newidiadau i'r tîm uwch swyddogion a'r taliadau cydnabyddiaeth sy'n ddyledus iddynt. Bydd y tîm yn sicrhau bod y datgeliadau yn y datganiadau ariannol yn gyson â'n gwybodaeth a thystiolaeth sylfaenol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| **Risgiau archwilio eraill** | |
| **Darpariaeth gwasanaethau a systemau ariannol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**<br>Daeth y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Awdurdod a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ben ar 31 Mawrth 2022.<br>Mae hyn yn cynrychioli risg i'r Awdurdod gan ei fod yn mabwysiadu swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd a ddarparwyd o dan y cytundeb hwn yn flaenorol.<br>Bydd y datganiadau ariannol ar gyfer 2021-22 yn cael eu llunio o ddata yn y systemau ariannol presennol a gynhelir gan gyngor Conwy.<br>O 1 Ebrill 2022, mae'r Awdurdod wedi rhoi system ariannol newydd ar waith a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. | Byddwn yn parhau i fonitro'r trefniadau ac ymgysylltu â swyddogion yn yr Awdurdod ac yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel y bo'n briodol drwy gydol yr archwiliad.<br>Bydd ein gwaith yn rhan o archwiliad 2022-23 yn cynnwys adolygiad o weithrediad y system ariannol newydd. |

# Archwilio perfformiad

16 Yn ogystal â fy Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol, rwyf hefyd yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau fel Archwilydd Cyffredinol fel y nodir ym mharagraffau 4 a 6 mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

17 Mewn ymateb i'r pandemig, rwyf wedi mabwysiadu dull hyblyg o wneud fy ngwaith archwilio perfformiad o ran y testunau a gwmpesir ac o ran methodoleg. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ymateb i'r amgylchedd allanol sy'n symud yn gyflym a darparu mwy o adborth mewn amser real a hynny mewn ystod o fformatau. Ar gyfer 2022-23, rwy'n bwriadu parhau â'r dull hwn i helpu i alluogi fy ngwaith i fod yn ymatebol ac yn amserol, a phan fo'n bosibl i rannu gwersi'n gyflymach.

18 Yn ystod 2020-21, ymgynghorais â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y byddaf yn ymdrin â fy nyletswyddau mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o 2020-2025.

19 Ym mis Mawrth 2021, ysgrifennais at y cyrff cyhoeddus a ddynodwyd o dan y Ddeddf yn nodi fy mwriadau, sy'n cynnwys a) cynnal archwiliadau penodol o sut

mae cyrff cyhoeddus wedi pennu eu hamcanion llesiant a b) integreiddio fy archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy o gamau i gyflawni amcanion llesiant yn fy rhaglenni archwilio cenedlaethol a lleol.

20 Bydd archwiliad o'r camau i gyflawni amcanion llesiant yn cael ei gynnal fel rhan o'r gwaith a nodir yn y cynllun archwilio hwn a chynlluniau archwilio olynol, gan arwain at fy adroddiad statudol o dan y Ddeddf yn 2025.

21 Ar gyfer 2022-23, mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn yr Awdurdod wedi'i nodi isod.

**Arddangosyn 2: Rhaglen Archwilio Perfformiad 2022-23**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2022-23.

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Mesur Llywodraeth Leol 2009 | Archwiliad o'r Cynllun Gwella ac asesiad o berfformiad. |
| Adolygiad Gwerth am Arian/adolygiad thematig | Rhagor o fanylion i ddilyn ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad. |

22 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddais ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau i lywio ein rhaglen waith archwilio yn y dyfodol ar gyfer 2022-23 a thu hwnt. Yn benodol, mae'n ystyried pynciau y gellir eu datblygu drwy ein harchwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a/neu drwy waith archwilio lleol ar draws nifer o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Wrth i ni ddatblygu a chyflawni ein rhaglen waith yn y dyfodol, byddwn yn rhoi themâu allweddol ar waith yn ein strategaeth bum mlynedd newydd, sef:

- darparu rhaglen archwilio strategol, ddeinamig ac o ansawdd uchel; a gefnogir gan
- ddull cyfathrebu a dylanwadu sydd wedi'i dargedu ac yn cael effaith sylweddol.

23 Lluniwyd y meysydd ffocws posibl ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad yng nghyd-destun tair thema allweddol o'n dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus yn hydref 2021, sef: byd sy'n newid; y pandemig sy'n parhau; a thrawsnewid y modd y cyflwynir gwasanaeth. Gwahoddwyd sylwadau hefyd ar feysydd posibl ar gyfer gwaith dilynol.

24 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i'r Awdurdod Tân ac Achub.

## Swyddogaethau archwilio statudol

25 Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gen i gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

26 Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei ystyried yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

## Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen

27 Mae fy ffioedd ac amserlenni arfaethedig ar gyfer cwblhau'r archwiliad yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- darperir y datganiadau ariannol yn unol ag amserlen y bwriedir cytuno arni gan ystyried effaith COVID-19, i'r ansawdd disgwyliedig ac maent wedi eu hadolygu'n gadarn i sicrhau ansawdd;
- mae'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn unol â'r ddogfen y cytunwyd arni ar gyfer cyflawni archwiliadau;
- darperir ystafelloedd a chyfleusterau priodol i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad mewn modd effeithlon;
- bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- rydych wedi rhoi'r holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i'w gwneud yn bosibl i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol ddarparu pob sicrwydd y mae ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a gyfeiriwyd ataf;
- mae rhaglen waith arfaethedig yr Archwiliad Mewnol wedi'i chwblhau ac mae'r rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

28 Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl bryd hynny.

### Ffi

29 Fel y nodir yn ein Cynllun Ffioedd 2022-23, mae ein cyfraddau ffioedd ar gyfer 2022-23 wedi cynyddu 3.7% o ganlyniad i'r angen i fuddsoddi'n barhaus mewn ansawdd archwilio ac mewn ymateb i bwysau cost cynyddol.

30 Nodir y ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2022 yn **Arddangosyn 3**. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.7% o'i gymharu â'ch ffi wirioneddol yn 2021.

**Arddangosyn 3: ffi archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2022, yn ôl maes archwilio, ochr yn ochr â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio'r cyfrifon[2] | 47,670 | 45,955 |
| Gwaith archwilio perfformiad[3] | 16,051 | 15,490 |
| Cyfanswm y ffi | **63,721** | **61,445** |

31 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Awdurdod yn gyntaf.

32 Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: Cynllun Ffioedd 2022-23.

## Y tîm archwilio

33 Crynhoir prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio**

Mae'r tabl hwn yn rhestru aelodau'r tîm archwilio lleol a'u manylion cyswllt.

| Enw | Swyddogaeth | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@archwilio.cymru |
| Mike Whiteley | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829389 | mike.whiteley@archwilio.cymru |

[1] Nodiadau: Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir hon arnoch.

[2] Yn daladwy o fis Tachwedd 2021 hyd fis Hydref 2022.

[3] Yn daladwy o fis Ebrill 2022 hyd at fis Mawrth 2023.

| Enw | Swyddogaeth | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Nick Selwyn | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320612 | nick.selwyn@archwilio.cymru |
| Jodie Williams | Uwch Archwilydd (Archwilio Ariannol) | 02920 829351 | jodie.williams@archwilio.cymru |
| Euros Lake | Uwch Archwilydd (Archwilio Perfformiad) | 02920 320517 | euros.lake@archwilio.cymru |

34 Gallwn gadarnhau bod pob aelod o’r tîm yn annibynnol arnoch chi a'ch swyddogion.

## Amserlen

35 Dangosir y cerrig milltir allweddol ar gyfer y gwaith a nodir yn y cynllun hwn yn **Arddangosyn 5**.

36 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â chyfrifon yr Awdurdod. Mae'r hawliau i ofyn cwestiynau a chyflwyno gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad yn gysylltiedig â hawliau etholwyr i archwilio'r cyfrifon sydd hefyd wedi'u nodi yn Neddf 2004.

**Arddangosyn 5: amserlen archwilio**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith wedi’i wneud | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2022** | Mawrth – Ebrill 2022 | Mehefin 2022 |

| Allbwn arfaethedig | Gwaith wedi'i wneud | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| **Gwaith archwilio Datganiadau ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Chwefror – Medi 2022 | Medi 2022 (I'w gadarnhau)<br>Medi 2022 (I'w gadarnhau)<br>Hydref 2022 |
| **Gwaith archwilio perfformiad:**<br>• Mesur Llywodraeth Leol 2009<br>• Adolygiad gwerth am arian lleol | Bydd amserlenni ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu trafod gyda'r Awdurdod a byddant yn cael eu nodi yn y sesiynau briffio prosiect penodol a gaiff eu creu ar gyfer pob darn o waith. | |
| **Crynodeb o'r Archwiliad Blynyddol** | Amherthnasol | Rhagfyr 2022 |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.